



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Cofebion Rhyfel yng Nghymru Canllawiau Technegol

# GOFALU AM



Cadw, Llywodraeth Cymru  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd CF15 7QQ  
01443 336000  
[cadw@wales.gsi.gov.uk](mailto:cadw@wales.gsi.gov.uk)  
[www.cadw.cymru.gov.uk](http://www.cadw.cymru.gov.uk)

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

War Memorials Trust  
2nd Floor  
42a Buckingham Palace Road  
Llundain  
SW1W 0RE  
Cyngor/grantiau cadwraeth: 020 7233 7356  
[conservation@warmemorials.org](mailto:conservation@warmemorials.org)  
[www.warmemorials.org](http://www.warmemorials.org)

Elusen genedlaethol yw'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel sy'n gweithio i warchod a diogelu cofebion rhyfel yn y DU.

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2014  
ISBN 978 1 85760 321 7 (PDF)  
©Hawlfraint y Goron 2014  
WG 19995

Darparwyd y ffotograffau ar gyfer y llyfryn hwn gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC); mae pob delwedd yn © hawlfraint y Goron: CBHC oni nodir fel arall. Mae Cadw yn cydnabod â diolch help Phil Parkes (Prifysgol Caerdydd), Cyllene Griffiths (Cyngor Sir Powys), a staff CBHC, Historic Scotland, English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel yn y gwaith o baratoi'r llyfryn hwn.

Mae'r cynnwys yn seiliedig ar *Advice on Maintenance of War Memorials* (English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel) a *Short Guide 3: The Repair and Maintenance of War Memorials* (Historic Scotland a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel).

Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel.  
[www.warmemorials.org/a-z](http://www.warmemorials.org/a-z)

---

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau amgen. Am fanylion, cysylltwch â Cadw yn y cyfeiriad uchod neu ffoniwch 01443 336000.

*Y ffotograff ar y clawr: Wyneb llesg rhyfel, Llanbedr Pont Steffan.*

*Ffotograff ar y dudalen cynnwys: Cofeb y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Wrecsam*



# Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru Canllawiau Technegol



## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>	Gwaith haearn	21
<b>Atgyweirio a Chynnal a Chadw</b>	<b>5</b>	Plwm	22
<b>Carreg</b>	<b>5</b>	Euro	22
Dirywiad carreg	6	Pren	22
Difwyno arwynebau	7	Papur	23
Twf planhigion	7	Mosaigiau	23
Mwsogl	8	Addurniadau wedi'u paentio	23
Algâu	8	Gwydr lliw ac addurnol	23
Cen y cerrig	8	Adeiladau	24
Defnyddio bywleiddiaid	8	Gwarchod rhag dwyn metelau	24
Glanhau cerrig	9	Graffiti a fandaliaeth	25
Ailbwyntio adeiladwaith	11	Tynnu graffiti	25
Nodi morter ar gyfer gwaith atgyweirio	12	Mesurau ataliol	26
Atgyweirio cerrig	13	Rheoli adar	26
Arysgrifau sy'n erydu	15	<b>Crynodeb o Ddiffygion Cyffredin</b>	<b>27</b>
<b>Concrid</b>	<b>15</b>	<b>Cyngor ac Adnoddau Defnyddiol</b>	<b>29</b>
<b>Metel</b>	<b>16</b>	Grantiau	29
Efydd	16	Cyngor	29
Pres	20	Adnoddau Defnyddiol	29
Copr	20		



XX  
HONOURED MEMORY OF  
THE MEN OF THIS DISTRICT  
WHO FELL IN THE  
GREAT WAR, 1914-1919.

CAPT. M.K.A. LLOYD. GR. GEN. COS.  
LT. R.B. DAVIES. R.F.C.  
LT. D. JONES. S.W.B.  
CPL. LL. EVANS. W.H.  
CPL. T.S. HAVARD. W.C.  
DVR. H.A. CLOAKE. R.F.A.  
DVR. J.G. GRIFFITHS. R.F.A.  
GR. D. LEWIS. R.F.A.  
SIGR. E.W. DAVIES. W. REG.

"GWELL ANGEU NA CHYWILYDD."

Pvt. J.H. THOMAS. YORK. REG.  
Pvt. D. LEWIS. W.C.  
Pvt. J. THOMAS. RES. BT.  
Pvt. D.E. JONES. CAN. REG.  
W.G. T. JAMES. R.M.S. MERRITT  
Svt. D. DAVIES. E.H.  
Sigr. J.E. THOMAS. R.H.  
Pvt. J.A. JONES. R.W.F.

"EU HADERTH HIO A VEIRIO."  
1939 - 1945

PTE. D.C.R. BRANFIELD. B.W.  
O.S. J. EVANS. M.H.  
FLY SGT. J.M. JONES. R.A.F.  
A/C. T. JONES. R.A.F.  
W.O. J.I. REES. R.A.F.



# Cyflwyniad

Mae cofebion rhyfel yn ganolbwynt mewn trefi a phentrefi ledled Cymru o hyd i goffáu'r ddau ryfel byd a brwydrau eraill. Mae'n bwysig y caiff y cofebion hyn eu cynnal a'u cadw'n briodol a'u gwarchod er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r canllawiau technegol hyn yn egluro'n fanwl y ffordd orau o ofalu am gofebion rhyfel yng Nghymru. Fe'u bwriedir yn bennaf i geidwaid er mwyn eu helpu i nodi pa waith cynnal a chadw y gall pobl nad ydynt yn arbenigwyr, yn cynnwys gwirfoddolwyr, ei wneud, a phryd y dylent geisio help proffesiynol gyda gwaith cynnal a chadw neu adfer arbenigol. Yn gyffredinol, dylai unrhyw arbenigwyr neu gontractwyr feddu ar brofiad o weithio gyda strwythurau hanesyddol. Efallai y bydd y canllawiau hyn hefyd yn ddefnyddiol i gontractwyr a gweithwyr cadwraeth.

Mae'r cydgyhoeddiad, *Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru*, yn egluro'r diddordeb arbennig a geir mewn cofebion rhyfel yng Nghymru ac mae'n rhoi cyflwyniad cyffredinol ar sut y dylid eu cynnal a'u cadw i geidwaid, awdurdodau lleol a phobl leol sy'n ymddiddori mewn gwarchod yr etifeddiaeth unigryw hon.

Mae'r ddau gyhoeddiad yn canolbwyntio ar gofebion sy'n sefyll ar eu pen eu hunain a phlaciau yn hytrach na strwythurau mawr fel adeiladau neu barciau a gerddi. Gellir diogelu cofebion rhyfel yn statudol drwy eu rhestru neu eu cofrestru, felly mae'n well ceisio arweiniad gan Swyddog Cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol cyn gwneud unrhyw waith er mwyn gweld a oes angen unrhyw ganiatâd. Mae rhagor o wybodaeth am ganiatadau yn *Gofalu am Gofebion Rhyfel yng Nghymru*.

*Isod: Ceir cofebion rhyfel ym mhob rhan o Gymru. Maent yn gofnod unigryw o effaith rhyfel ac mae'r gwaith o'u gwarchod yn yr hirdymor yn sicrhau bod yr atgof o'r sawl a fu farw yn parhau. (Drwy garedigrwydd Media Wales Ltd).*

*Gyferbyn: Codwyd y gofeb hon yn Aberbanc, ger Llandysul, i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.*





# Atgyweirio a Chynnal a Chadw

**W**rth gynllunio gwneud gwaith ar gofeb rhyfel, mae'n bwysig cael dealltwriaeth glir o'r deunyddiau y mae'r gofeb wedi'i gwneud ohoni a deall y gofynion cadwraeth arbennig sy'n berthnasol iddynt.

Mae'r canllawiau technegol hyn yn edrych ar y deunyddiau gwahanol a ddefnyddir i adeiladu cofebion rhyfel, y perygl o ddfrod gan gyfryngau ffisegol, biolegol neu atmosfferaid a'r gofal a'r gwaith cynnal a chadw priodol sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn goroesi yn yr hirdymor.

Dylai Swyddog Cadwraeth eich awdurdod cynllunio lleol a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel allu rhoi cyngor arbenigol i chi a cheir rhestr o adnoddau defnyddiol a manylion cyswllt ar dudalen 29.

## Carreg

Tywodfaen, calchfaen a gwenithfaen yw'r mathau mwyaf cyffredin o gerrig a ddefnyddir ar gyfer cofebion rhyfel yng Nghymru. Ynghyd â mathau eraill o gerrig, defnyddiwyd marmor wedi'i fewnforio yn achlysurol ar gyfer cerfluniau a defnyddiwyd llechi weithiau ar gyfer toeon a

phaneli arysgrifedig.


Gall cerrig amrywio'n eang o ran ansawdd, ymddangosiad a gwydnwch. Lle mae angen gwneud gwaith atgyweirio, efallai y bydd angen i chi nodi tarddiad y garreg, naill ai o gofnodion neu drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfateb cerrig. Yn wahanol i wenithfaen, sy'n galed, mae cerrig eraill yn feddalach ac yn fwy mandyllog ac, felly, yn fwy agored i gael eu difrodi drwy ddulliau glanhau amhriodol, manylion gwael a hindreulio. Gall rhai mathau o gerrig fod yn agored i ddamladu, lle mae haenau yn fflawio oddi ar yr arwyneb. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd pan na fydd y garreg wedi'i gosod yn gywir mewn perthynas â'i graen, ond gall fod yn ddigwyddiad naturiol na ellir ei atal.

Defnyddiwyd gwenithfaen yn aml ar gyfer cofebion rhyfel hyd yn oed pan nad oedd ar gael yn lleol. Gall hyn fod oherwydd yr ystyriwyd bod ei gwydnwch a'i nodweddion esthetig yn arbennig o briodol ar gyfer cofebion rhyfel. Mae gan wenithfaen strwythur crisialaidd y gellir ei gaboli'n dda sy'n golygu ei bod yn arbennig o addas ar gyfer cofebion sydd dan do. Gellid defnyddio cyfuniad o orffeniadau ar gyfer cofebion yn yr awyr agored ac yn aml cawsant eu gadael yn arw ar bwrpas. Os cânt eu trin yn briodol, gall cofebion gwenithfaen bara am amser hir ac ni fydd angen llawer o waith i'w

*Chwith isod: Weithiau, defnyddiwyd llechi ar gyfer paneli cerfiedig fel hwn yng Nghapel Baladeulyn, Nantlle. Mae'r manylion cerfiedig yn dangos golygfa o fywyd y chwarelwyr.*

*Dde isod: Yn aml, defnyddiwyd marmor ar gyfer paneli coffáu mewn addoldai ac adeiladau dinesig. Mae'r gofeb ingol hon yng Nghapel Methodistaidd Pendref, Dinbych.*

*Gyferbyn: Mae cofebion rhyfel yn aml wedi'u gwneud o nifer o ddeunyddiau gwahanol. Yma yng Nglynebwy, mae gan y cerflun efydd, y pedestal a'r pileri gwenithfaen, a'r cyswllt cadwyn haearn eu gofynion cadwraeth penodol eu hunain.*



*Chwith isod: Pan gaiff ei chynnal a'i chadw'n briodol, carreg yw un o'r deunyddiau adeiladu mwyaf sefydlog a gellir ei defnyddio i adeiladu ac addurno. Mae pen y gofeb hon yn Hanmer a godwyd yn 1919, sydd wedi'i gerfio'n gelfydd o dywodfaen, wedi gwrthsefyll bron i 100 mlynedd o fod yn agored i'r tywydd.*

*Dde isod: Fodd bynnag, nid yw pob carreg yn goroesi cystal. Mae'n debygol bod nifer o ffactorau'n gyfrifol am ddirywiad y colofnau a'r arysgrif ar y gofeb galchfaen yn Abercynon.*

cynnal a'u cadw. Er hyn, gall dulliau glanhau mwy cras neu ddefnydd o ddeunyddiau atgyweirio amhriodol beri difrod iddynt.

Dylai gwaith i warchod ac atgyweirio gwaith maen ar gofebion rhyfel ymyryd cyn lleied â phosibl a chadw ffabrig gwreiddiol cymaint â phosibl. Dim ond lle caiff cyflwr neu gyfanrwydd strwythurol y gofeb ei pheryglu, neu lle mae'r diffygion yn tynnu oddi wrth ei pherthnasedd a'i statws, y dylid ystyried glanhau, ailbwyntio, atgyweirio neu ailorchuddio tolciau.

Yn aml, mae strwythurau hanesyddol yn gwyro ac fel arfer, nid yw hyn yn broblem nac yn arwydd o ansefydlogrwydd strwythurol. Oni fydd yn amlwg bod y gofeb mewn perygl o ddymchwel, dylech ei monitro i weld p'un a yw'n symud o hyd. Os bydd achos pryder, dylech geisio cyngor pensaer cadwraeth neu beiriannydd strwythurol profiadol.

## Dirywiad carreg

Cerrig yw un o'r deunyddiau adeiladu mwyaf sefydlog pan gânt eu cynnal a'u cadw'n briodol ar yr amod eu bod wedi'u dethol a'u gosod yn gywir, ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod dŵr yn llifo i fwrdd. Fodd bynnag, dros amser, bydd pob math o gerrig yn erydu ac yn cael eu hindreulio. Mae graddau'r dirywiad yn dibynnu ar y math o garreg a pha mor agored ydyw. Gall y ffordd y mae'r garreg wedi'i naddu a'i gosod neu amrywiadau naturiol o fewn darnau unigol o adeiladwaith hefyd effeithio ar y dirywiad.

Achosion cyffredin o ddfrod i gofebion rhyfel carreg:

- llygrwyr atmosfferaid
- tyfiannau biolegol, a fydd yn gwaethygu yn sgil glanhau neu amodau llaith parhaus
- difrod ffisegol yn sgil treulio, gwrthdrawiadau, fandaliaeth neu ddwyn
- glanhau cemegol
- defnyddio morterau sment caled, dwys ar gyfer gwneud gwaith ailbwyntio ac atgyweirio
- dulliau glanhau ysgraffiniol
- cracio yn sgil rhew neu waith haearn yn chwyddo
- difrod halen
- graffiti
- hindreulio'n naturiol a diffygion yn y garreg
- cynllun pensaernïol neu fanylion gwael





## Difwyno arwynebau

Mae nifer y llygrwyr atmosfferaid, fel huddyg a chemegion diwydiannol, wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r cynnydd mewn allyriadau o gerbydau yn parhau i fod yn achos cyffredin o ddifwyno arwynebau a dirywiad mewn ardaloedd trefol. Gall cyfryngau biolegol neu gemegol naturiol ac artiffisial ddifwyno a newid lliw cofebion carreg hefyd.

Mae'n hollol naturiol i garreg newid lliw yn raddol o'i chyflwr newydd dilychwin pan gaiff ei hamlygu i'r tywydd ac yn datblygu patina naturiol ar ei harwyneb. Mae'r patina yn dechrau ffurfio pan gaiff y garreg ffres ei thori o'r chwarel. Bydd crwst tenau'n ffurfio pan gaiff mwynau toddadwy eu dyddodi ar yr arwyneb wrth i'r garreg sychu. Mae'r cylchoedd gwlychu a sychu a achosir gan amlygiad i'r tywydd yn achosi i'r newidiadau mwynyddol ger arwyneb y garreg barhau, sy'n datblygu yn barth arwyneb sefydlog o gyn lleied ag ychydig filimetrau o drwch fel arfer pan gaiff ei chyfuno â sylwedd gronynnol yn yr atmosffer. Mae'r patina hwn yn gweithredu fel haen warchodol a gall dulliau glanhau amhriodol i'w dileu amlygu carreg feddalach sy'n dirywio. Patina sydd hefyd yn rhoi llawer o'i chymeriad i garreg a gellir ei gwerthfawrogi fel arwydd o barhad a gwydnwch y gofeb. Gall ymddangosiad hen waith maen fod yn brydferth ac ni ddylid glanhau cemig er mwyn gloywi ymddangosiad y gofeb yn unig. Ar y cyfan, dim ond os bydd difwynio yn achosi difrod i'r adeiledd, yn difetha'r ymddangosiad, yn ei gwneud yn amhosibl asesu cyflwr y gofeb neu ddarllen yr arysgrifau y bydd yn broblem.

Gall algae, cen y cerrig a mwsoglau fod yn gyffredin ar waith maen allanol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nid yw tyfiant o'r fath yn niweidiol o anghenraid a gall hyd yn oed wella ymddangosiad y gofeb. Fodd bynnag, gall tyfiant biolegol annog difwyniad drwy gyflwyno arwyneb addas i lygrwyr lynu wrtho, felly os yw'n creu difrod i'r garreg neu'n cuddio arysgrifau neu fanylion addumiadol ar gofeb rhyfel, gall fod yn well cael gwared arno. Gall fod angen cael gwared ar dyfiant biolegol hefyd er mwyn asesu'r arwyneb. Caiff rhai rhywogaethau eu diogelu gan y gyfraith. Mae rhagor o wybodaeth am rywogaethau a warchodir ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).

## Twf planhigion

Pan fydd safleoedd wedi'u hesgeuluso neu pan fydd gwaith maen neu bwyntio wedi torri sy'n gadael i lystyfiant dyfu, gall planhigion bach a choed ifanc gymryd gafael yn gyflym. Mae coed mêl ac eiddew yn gyffredin a gallant achosi difrod difrifol os na chânt eu gwaredu neu eu rheoli. Gall planhigion gladdu gwreiddiau o fewn yr uniadau neu o dan fonion cofebion rhyfel ac achosi toriadau, jacio neu ansefydlogrwydd.

Mewn achosion difrifol efallai y bydd angen dymchwel ac ailadeiladu'r gofeb, ond fel arfer gallwch chwynnu'r planhigion, tynnu'r gwreiddiau ac ailbwyntio'r tyllau. Pan fydd y planhigion yn sefydledig, efallai y bydd angen bywleiddiad i ladd y rhwydwaith o wreiddiau a thynnu gweddill y planhigyn, ond dylid ceisio peidio â defnyddio bywleiddiad ar y gofeb ei hun. Dylid trefnu mai arbenigwr fydd yn defnyddio'r bywleiddiad.

Y ffordd orau o atal planhigion rhag tyfu

*Yn aml, mae algae, cen y cerrig a mwsogl yn tyfu ar gofebion rhyfel, a gall fod angen eu tynnu. Holwch i weld a oes angen help arbenigol amoch. Mae'r afliwio ar y gofeb rhyfel hon yn awgrymu bod algae wedi tyfu arni.*



yw sicrhau bod y gwaith pwyntio yn gadarn ac atgyweirio cerrig sydd wedi torri.

## Mwsogl

Dim ond mewn llefydd sy'n llaith ac yn gysgodol yn barhaus y bydd mwsogl yn tyfu, felly gall dyfu ar gofebion sydd yng nghysgod adeiladau neu goed, neu lle ceir glaw trwm a draenio gwael. Nid yw ychydig o fwsogl yn niweidiol ond os bydd llawer ohono, gall achosi i'r gwaith maen neu'r gwaith pwyntio ddirywio am fod mwsogl yn cadw lleithder a gall olygu bod y garreg yn agored i ddifrod gan rew. Pan fydd yn tyfu'n bennaf ar hyd uniadau, mae fel arfer yn golygu bod yr uniadau yn agored ac yn dal dŵr, felly dylid ymchwilio i hyn.

Nid yw mwsogl yn ymosodol a gallwch gael gwared amo'n hawdd drwy grafu'n ysgafn gydag ysbodol bren fel rhan o'ch rhaglen cynnal a chadw reolaidd. Nid oes angen arbenigwr amoch oni fydd y garreg mewn cyflwr gwael. Os felly, dylech geisio cyngor arbenigol i weld a fyddai'n amhriodol cael gwared amo neu a allai achosi difrod. Fel arfer, nid oes angen bywleiddiaid a dylid sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio gan arbenigwr. Fodd bynnag, gall rhai rhywogaethau o fwsogl fod wedi'u gwarchod neu fod o bwysigrwydd rhanbarthol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).

## Algâu

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Mae algae sy'n tyfu ar arwyneb carreg yn gyffredin ac mae'n dynodi bod dŵr yn bresennol. Fel arfer, mae tyfiant algae yn wyrdd ac yn llysnafeddog pan fydd yn ffres ac yn newid i ddu pan fydd yr arwyneb wedi sychu. Gall algae gytrefu ar gofeb mewn man gwlyb iawn, neu yng nghysgod coed neu adeiladau sy'n parhau i fod

*Mae'r rhan fwyaf o fathau o gen y cerrig — fel y tyfiant melyn ar y plin hwn — yn ddiniwed ond dylid eu monitro.*



yn llaith am gyfnodau hir.

Gallwch leihau neu atal algae drwy leihau lleithder arwyneb. Trefnwch y gwaith o atgyweirio manylion pensaernïol i reoli dŵr glaw ffo a thociwch lystyfiant cysgodol er mwyn sicrhau bod yr ardal yn sychu'n gynt.

Pan fydd yn sych, gellir tynnu algae drwy frwsio gyda brws â blew naturiol caled neu grafu gydag ysbodol bren. Weithiau, gall fod angen glanhau rhagor gyda glanedydd nad yw'n ïonig er mwyn cael gwared ar unrhyw algae sy'n weddill. Yn gyffredinol, contractwr gyda phrofiad priodol ddylai wneud y math hwn o waith.

## Cen y cerrig

Tyfiant sy'n gyfuniad o ffwng ac algae yw cen y cerrig. Mae'n tyfu'n eithriadol o araf ac yn aml mae'n arwydd o awyrgylch glân. Gall ei liwiau ysgafn ac effaith lareiddiol ar waith maen fod yn hardd iawn. Mae'r rhan fwyaf o fathau yn ddiniwed ond ceir rhai rhywogaethau a all niweidio arwyneb mathau o gerrig sy'n agored i niwed drwy achosi pothelli neu bantiau.

Oherwydd y gall y broses o gael gwared ar gen y cerrig beri difrod i'r garreg, argymhellir mai dim ond pan fydd y garreg yn cael ei difrodi neu pan fydd arysgrifau yn cael eu cuddio y dylid gwneud hyn. Os felly, dylech gael gwared ar gen y cerrig gan ddefnyddio brws â blew naturiol caled. Ar gyfer cen y cerrig sy'n arbennig o galed, dylid gosod cadach cotwm gwlyb arno am awr o leiaf cyn ceisio ei frwsio neu ei grafu i ffwrdd. Pan fydd y garreg mewn cyflwr da yn gyffredinol nid oes angen arbenigwr amoch. Fodd bynnag, os yw'r garreg yn hen iawn neu mewn cyflwr gwael, dylech gysylltu ag arbenigwr.

Gall glanhau â stêm fod yn effeithiol hefyd a chaiff effaith ddiheintio sy'n atal aildyfiant. Dim ond contractwr arbenigol ddylai lanhau â stêm (gweler t. 10). Gall rhai rhywogaethau o gen y cerrig fod wedi'u gwarchod neu fod o bwysigrwydd rhanbarthol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk).

## Defnyddio bywleiddiaid

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Gall defnyddio bywleiddiaid fod yn benodol ar gyfer cael gwared ar dyfiant biolegol ac ar ôl glanhau cerrig, ond dim ond contractwr arbenigol ddylai ei ddefnyddio. Yn gyffredinol,

dim ond am gyfnod byr y mae bywleiddiaid yn effeithiol oni eir i'r afael â'r rheswm sylfaenol dros y tyfiant. Gall y tyfiant marw a geir ar ôl defnyddio bywleiddiad hefyd greu haen faethol lle y bydd tyfiant newydd yn ailsefydlu yn gynt.

Mae'n well defnyddio bywleiddiaid pH niwtral ar gofebion carreg oherwydd y gall cynnyrch sy'n seiliedig ar asid neu alcali effeithio ar garreg naturiol. Fodd bynnag, gall y broses o lanhau strwythurau carreg annog tyfiant biolegol, yn enwedig algae. Gall hyn fod oherwydd y ffoffadau mewn rhai cyfryngau glanhau cemegol, neu oherwydd y caiff arwyneb mwy garw ei greu ar y garreg a lanhawyd y gall planhigion llynu'n llawer haws wrtho. Felly, dim ond pan fydd angen y dylid defnyddio bywleiddiaid, ac mae'r manteision yn gorbwyso'r niwed posibl.

Pan ddefnyddir bywleiddiad — efallai pan fydd planhigion yn tyfu'n helaeth neu'n barhaus — rhaid i'r driniaeth ddinistrio'r organeb sy'n achosi'r broblem yn effeithiol heb niweidio fflora a ffawna eraill yn y cyffiniau, neu fynd i mewn i ffynonellau dŵr. Ni ddylai adael dyddodion ar y garreg, newid ei lliw naturiol nac effeithio arni mewn ffordd barhaol a allai arwain at ragor o ddirywiad. Dylid diogelu unrhyw elfennau metel wrth ddefnyddio bywleiddiaid.

Ni ddylid defnyddio canyddion domestig, glanhawyr patio a chwynladdwyr ar gofebion rhyfel. Yn aml, maent yn cynnwys cemegion garw a gallant ddyddodi halen sy'n achosi rhagor o ddirywiad. Ceir canllawiau penodol ar *fywleiddiaid a glanedyddion* ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel.

## Glanhau cerrig

Pan gaiff difwyno effaith niweidiol sylweddol ar waith maen, naill ai'n ffisegol neu'n esthetig, galla fod yn briodol glanhau'r garreg. Ceir safbwyntiau amrywiol ar ymddangosiad priodol cofebion rhyfel: wedi'u hindreulio neu'n ddilychwin. Fodd bynnag, ni ddylid drysu rhwng arwyneb sydd wedi heneiddio ac wedi difwyno a dylai unrhyw waith glanhau warchod y patina presennol.

Dylid diogelu elfennau addurniadol ac arysgrifau mewn efydd neu ddeunyddiau eraill yn ofalus rhag cael eu difrodi wrth lanhau. Pan fydd angen glanhau cerrig, dylid dechrau gyda'r dull lleiaf cras bob amser er mwyn lleihau'r risg o ddifrod i'r gofeb. Mae llwyddiant pob dull yn dibynnu ar sgil a phrofiad y gweithredwr, ei gyfarpar dewisol a'r fanyleb gywir.

Er y gall rhai pobl nad ydynt yn arbenigwyr, yn cynnwys gwirfoddolwyr, ddefnyddio rhai dulliau glanhau sylfaenol â dŵr ar garreg mewn cyflwr da, arbenigwyr cadwraeth ddylai wneud y rhan fwyaf o'r gwaith glanhau.

## Paneli profi

Cyn glanhau carreg ar unrhyw gofeb, dylid paratoi panel profi bach mewn man nad yw'n amlwg er mwyn asesu effaith y dull glanhau ar y gwaith maen, gan ddechrau gyda'r dull lleiaf cras ac ymyrrol. Efallai y bydd angen sawl panel profi ar gofebion sydd wedi'u gwneud o fathau gwahanol o garreg neu lle ceir amrywiaeth o fathau o ddiffwyno. Unwaith y byddwch wedi cytuno ar y weithdrefn a lefel y glanhau, dylid parhau i ddefnyddio'r panel profi fel dull o reoli hyd nes bydd y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i gwblhau. Gall hyn osgoi anghydfodau.

*Dylai'r gofeb rhyfel o wenithfaen wedi'i chaboli ar Ynys Dysilio ar afon Menai gael ei glanhau gan ddefnyddio technegau priodol er mwyn cadw ei chymeriad a'r arysgrifau.*



## Brwsio sych

Mae brwsio'r garreg â llaw gan ddefnyddio brwsh â blew naturiol caled neu frwsh neilon er mwyn cael gwared ar dyfiant organig a baw arwyneb llac yn ddull ysgafn ac effeithiol o lanhau. Gall fod yn effeithiol ar gofebion carreg nadd ag arwyneb o garreg llanw a chraig. Os yw'r garreg mewn cyflwr da nid oes angen arbenigwr amoch. Fodd bynnag, os yw'r garreg yn frau, gall hyd yn oed frwsio â llaw achosi i fanylion arwyneb gael eu colli. Os ydych yn ansicr ynghylch cyflwr y gwaith maen, dylech ymgynghori ag arbenigwr. Nid yw'n addas defnyddio brwsh weiers ar gofebion rhyfel.

## Golchi â dŵr pwysedd isel

Dyma un o'r dulliau lleiaf cras o lanhau carreg. Fe'i defnyddir yn gyffredin i lanhau cerrig pan fydd baw wedi glynu ar gyfansoddion cemegol sy'n gymharol doddadwy. Mae'n arbennig o effeithiol ar galchfaen a gwenithfaen. Gellir meddal achosion o ddifwyno mwy ystyfnig gyda dŵr ac yna ei dynnu gan ddefnyddio brwshis â blew naturiol neu grafwr pren. Gall golchi â dŵr hefyd fod yn effeithiol ar farmor, ynghyd â glanedydd nad yw'n ïonig ar gyfer dyddodion anoddach neu seimllyd.

Dim ond digon o ddŵr i olchi'r dyddodion i ffwrdd y dylid ei ddefnyddio, neu i'w rhyddhau fel y gellir eu tynnu â llaw. Gall gormod o ddŵr arwain at orwlychu neu staenio'r garreg, yn arbennig ar farmor. Dylech ddechrau glanhau ar ben uchaf y gofeb er mwyn osgoi glanhau

*Gall glanhau â stêm fod yn ddull effeithiol o dynnu crynhoad o faw oddi ar arwyneb, ond dylid cyflogi contractwr arbenigol i wneud y gwaith fel y gwelir yma ym Mhontarddulais (© Elliott Ryder Conservation).*



baw ar arwynebau a lanhawyd eisoes. Ni ddylid glanhau â dŵr mewn tywydd oer iawn oherwydd y bydd yn gadael y garreg yn agored i rew. Nid oes angen contractwr arbenigol ar gyfer defnyddio dull glanhau sylfaenol â dŵr ar gyfer carreg sy'n gymharol sefydlog ond dylech gysylltu ag arbenigwr os ydych yn bwriadu defnyddio dulliau mwy soffistigedig.

## Glanhau â stêm

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Yn aml, defnyddir dull glanhau â stêm ynghyd â dulliau eraill fel glanhau gan ddefnyddio brwsh â blew naturiol neu lanhau ysgraffiniol pwysedd isel. Mae'r stêm yn rhyddhau baw ar yr arwyneb fel ei fod yn chwyddo ac yn datgysylltu. Nid yw'n addas i dynnu dyddodion llygredd carbon nad ydynt yn doddadwy mewn dŵr fel arfer ac sy'n tueddu i ymdreiddio i fatrics carreg fwy mandyllog. Pan gaiff ei ddefnyddio ynghyd â glanedyddion ysgafn, gall glanhau â stêm gael gwared ar ddyddodion saim ac olew yn effeithiol. Mae prosesau masnachol mwy newydd o lanhau â stêm yn defnyddio dŵr poeth iawn dan bwysedd yn uniongyrchol ar yr arwyneb sy'n meddal dyddodion arwyneb gan olygu y gellir eu tynnu'n hawdd. Mae hyn yn effeithiol i gael gwared ar dyfiant organig, paent a rhai mathau o graffiti ac mae'n arbennig o effeithiol ar galchfaen a gwenithfaen. Contractwyr arbenigol ddylai ymgymryd â gwaith glanhau â stêm.

## Glanhau ysgraffiniol pwysedd isel

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Mae systemau glanhau masnachol pwysedd isel yn defnyddio blaen arbennig sy'n chwistrellu dŵr wedi'i gymysgu â phowdwr ysgraffiniol mân iawn. Mae'n tueddu i fod yn llai cras gan fod y gronynnau o bowdwr yn fân iawn ac yn cael eu chwistrellu ar ffurf troell yn hytrach nag yn uniongyrchol ar yr arwyneb. Gellir defnyddio'r dull hwn heb ddŵr hefyd er mwyn glanhau mewn modd ysgraffiniol dan bwysedd isel a gall fod yn effeithiol er mwyn cael gwared ar haenau o lygredd, yn enwedig oddi ar dywodfaen. Mae'n hanfodol bod person medrus yn glanhau er mwyn sicrhau na chaiff y gofeb ei difrodi. Os caiff dulliau o'r fath eu defnyddio'n anghywir, gall arwain at golli gorffeniadau a thriniaeth arw ar y garreg a wnaed gan ddefnyddio offer.

## Glanhau ysgraffiniol (dylid osgoi'r dulliau hyn)

Mae dulliau eraill a ddefnyddir weithiau i lanhau carreg nad ydynt yn addas ar gyfer cofebion rhyfel. Ymysg y rhain mae chwistrellu graean sych neu wlyb, glanhau â disg a golchi â dŵr pwysedd uchel. Mae dulliau o'r fath yn arwain at risg uchel o ddifrodi arwyneb adeiladwaith ac uniadau, ac achosi rhagor o ddirywiad.

## Glanhau â chemegion (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Mae llawer o gyfryngau cemegol asidaidd ac alcaliaidd ar gael sy'n amrywio o ran cryfder ac effeithiolrwydd. Weithiau, ychwanegir glanedyddion a bywleiddiaid. Mae glanhau â chemegion yn arbennig o niweidiol i gerrig mandyllog, fel calchfaen a thywodfaen, a gall arwain at staenio marmor yn ddifrifol, ond gellir hyd yn oed ddifrodi cerrig anhydraidd caled iawn fel gwenithfaen. Gall cemegion ymdreiddio i'r garreg gan arwain at ewlychiad (halen) a dirywiad dros amser. Yn aml, caiff y dull hwn ei gyfuno â glanhau dan bwysedd er mwyn cael gwared ar weddillion, a all achosi rhagor o ddifrod.

Oherwydd y risgiau dan sylw, ni chaiff glanhau â chemegion ei argymhell fel arfer ar gyfer cofebion rhyfel carreg. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall fod yn briodol defnyddio glanhawyr cemegol; er enghraifft, ar gyfer rhai mathau o graffiti a staenio difrifol ar dywodfaen nad yw'n doddadwy mewn dŵr. Mae treialon glanhau gyda chryfderau a chrynodiaid cemegol gwahanol yn hanfodol er mwyn sefydlu'r opsiwn gorau ar gyfer y math o garreg. Ni ddylid fyth ddefnyddio cynnyrch asidaidd ar galchfaen a marmor. Gweithwyr cadwraeth arbenigol ddylai lanhau â chemegion.

## Powltrisiau (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Gall rhai mathau o staenio ymdreiddio i'r garreg, fel staenio a achosir gan ddŵr glaw ffo oddi ar fetel, ocsid haearn (rhwd) neu gyfansoddion copr o efydd a phres. Ni fydd dulliau glanhau sy'n gweithredu ar arwyneb y garreg yn effeithiol yn yr achosion hyn a phowltris yw'r opsiwn gorau.


Dulliau o ddefnyddio deunyddiau ffeibrog neu gleiog sy'n cynnwys dŵr a/neu dddyddion eraill yw powltrisiau fel arfer. Maent yn gweithio

drwy dynnu'r staen allan o'r gwaith maen. Mae powltrisiau sy'n cynnwys cyfryngau neilltuo ar gael er mwyn cael gwared ar staeniau metalaidd. Mae staenio drwy ddŵr glaw ffo oddi ar fetel fel arfer yn deillio o ddiffyg gwaith cynnal a chadw ar yr haen amddiffynnol (cwyr, paent neu olewau patiniad). Os na chaiff yr haen hon ei chynnal a'i chadw ar ôl y gwaith glanhau, bydd y staen yn ailymddangos. Gweithwyr cadwraeth arbenigol ddylai ymgymryd â gwaith glanhau gan ddefnyddio powltrisiau.

## Ailbwytio adeiladwaith (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Mae'n bwysig sicrhau bod gwaith pwyntio yn parhau i fod yn gadarn oherwydd y gall uniadau diffygiol adael i ddŵr ymdreiddio i'r gofeb. Gall

*Mae'r gwaith maen wedi'i staenio gan ddŵr ffo metel o'r cerflun efydd uwch ben. Efallai y bydd gweithiwr cadwraeth arbenigol yn defnyddio powltris i dynnu'r staen. Dylai rhoi côt amddiffynnol newydd ar y cerflun atal rhagor o staenio.*





*Efallai y bydd angen ailbwytio er mwyn atal dŵr rhag ymdreiddio i'r gwaith maen ond dylid sicrhau bod y mortar cywir a'r arddull pwyntio cywir yn cael eu defnyddio fel y gwelir yma yn Nhywyn.*

cylchoedd rhewi a meiriol arwain at ddifrod i'r gwaith maen. Gall gwaith pwyntio diffygiol, sy'n arwain at gadw lleithder, hefyd annog tyfiant biolegol ac arwain at ragor o ddifrod i'r gofeb. Bydd angen ailbwytio pan fydd y mortar haenu neu uniadu wedi'i olchi i fwrdd neu wedi llacio, gan adael bylchau y gall dŵr ymdreiddio iddynt. Pan fydd y gwaith pwyntio wedi dirywio'n wael iawn, gall cerrig fynd yn rhydd a gall fod angen eu hailosod.

Yn gyffredinol, mae mortar calch yn addas i'w ddefnyddio gyda charreg hanesyddol. Gall mortar sment achosi difrod am ei fod yn anhyblyg ac yn anhydraidd.

Mae cofebion rhyfel yn rhai pwysig ac yn aml cânt eu hadeiladu o waith carreg nadd o ansawdd uchel gydag uniadau gwyh, neu o garreg batrymog, carreg wedi'i sgwario a charreg nadd. Mae ailbwytio carreg nadd yn galw am lawer o sgiliau oherwydd y gall dulliau a chyfarpar confensiynol ddifrodi'r garreg yn hawdd. Dylech chwilio am gontractwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad addas ond, cyn dechrau ar waith ailbwytio, dylech gomisiynu gwerthusiad manwl i bennu faint yn union o waith sydd ei angen a manyleb y gymysgedd mortar.

Dim ond os yw'r gwaith pwyntio presennol yn ddiffygiol a bod tystiolaeth o ddifrod i'r gwaith maen, neu risg o hynny, y dylid ymgymryd â gwaith ailbwytio. Yn aml, mae gwaith pwyntio sydd wedi erydu rhywfaint neu'n rhannol yn dal i fod yn effeithiol a gall gwaith ailbwytio gorfrwdfrydig wneud mwy o ddrwg nag o les,

yn esthetig ac yn ymarferol. Mae'n bwysig cymryd ffotograffau o'r gofeb cyn dechrau gwneud unrhyw waith i atgyweirio'r cerrig fel y gellir cyfeirio ato wrth atgyweirio ac osgoi achosion o anghydfod ynghylch crefftwaith.

Dylid tynnu mortar rhydd sydd wedi dirywio yn ofalus gan ddefnyddio bachyn neu gyllell ddu denau. Os bydd wir angen, gall contractwr medrus ddefnyddio disg pendiliol (nid tröwr onglog na thorwr dirgrynnol) i dorri mân uniadau. Ond, fel arfer, os bydd angen cyfarpar mecanyddol i dynnu mortar, mae'n annhebygol y bydd angen gosod mortar newydd yn ei le os nad yw'n achosi problemau. Fel arfer, dylid crafu'r uniadau i ddyfnder o 25mm o leiaf, neu ddwbl lled yr uniad, pa bynnag un yw'r mwyaf. Er mwyn sicrhau bod yr holl forter llac sydd wedi dirywio wedi cael ei dynnu, dylid golchi dŵr yn ofalus dros yr uniadau, heb i'r gweddillion gasglu rywle arall ar y gofeb.

## Nodi mortar ar gyfer gwaith atgyweirio

**(cysylltwch â chontractwr arbenigol)**

Ni ddylid ailbwytio carreg naturiol gan ddefnyddio morterau sment. Fel arfer, nid yw'r rhain yn ddigon hyblyg a hydraidd i alluogi symudiad thermol a throsglwyddiad anwedd. Gan fod gwenithfaen yn galed ac yn ddwys, nid yw'n cael ei hindreulio gymaint pan ddefnyddir mortar cryf o gymharu â cherrig meddalach; fodd bynnag, mae angen ystyried mwy na dim

ond caledwch y garreg wrth ddewis mortar.

Pan ddefnyddir mortar sment neu forter anhyblyg arall gyda charreg galed, ni all y strwythur alluogi symudiad thermol yn hawdd iawn. Mae'r garreg yn gwrthsefyll cracio felly wrth i gorff y strwythur chwyddo a chyfangu gyda newidiadau naturiol mewn tymheredd a lleithder, bydd uniadau'r mortar yn cymryd y straen a gallant gracio. Mae craciau yn uniadau'r mortar yn golygu y gall dŵr fynd i mewn i'r strwythur. Gall y dŵr gronni ac arwain at ddifrod gan rew a thyfiant.

Mae morterau calch yn fwy hyblyg a gallant alluogi symudiad yn well felly mae llai o debygrwydd y bydd cracio. Maent hefyd yn galluogi lleithder i anweddu. Mae rhywfaint o athreiddedd yn uniadau'r mortar yn bwysig hyd yn oed gyda cherrig caled iawn, gan mai'r unig ffordd y gall lleithder symud drwy'r gofeb yw drwy'r uniadau. Ar gyfer cerrig caled fel gwenithfaen, yn aml gellir defnyddio mortar calch cryfach heb arwain at risg o ddifrod i'r garreg, ond nid oes angen mortar sment na mortar â chryfder cywasgol uchel a gall arwain at broblemau yn yr hirdymor.

Dylai mortar newydd gyd-fynd â lliw a gwead y mortar gwreiddiol. Dylai gorffeniad y gwaith pwyntio fod yn gywastad neu wedi'i osod yn ôl ychydig o wyneb y garreg. Ni ddylid ei orweithio pan gaiff ei roi i ddechrau oherwydd bydd hyn yn tynnu'r calch at yr wyneb. Yn hytrach, dylid ei orffen drwy frwsio neu ei daro'n ysgafn â brws â blew caled pan fydd wedi caledu am y tro cyntaf.

Bydd hyn yn helpu i dynhau'r uniadau ac amlygu gwead y cerrig mân. Dylid osgoi rhwbio mortar dros wyneb y garreg a dylid glanhau unrhyw forter sy'n weddill ar unwaith.

Dylid osgoi gwneud gwaith mortar calch mewn tywydd oer iawn neu ar ddiwmodau cynnes, sych neu wyntog iawn. Dylid diogelu'r gwaith pwyntio ffres rhag sychu'n ormodol drwy osod haenau o hesian llaith ar wyneb y garreg hyd nes bydd y mortar wedi caledu. Mewn tywydd cynnes, dylid chwistrellu'r hesian yn rheolaidd â dŵr ysgafn. Os gadewir i'r gwaith pwyntio sychu'r rhy gyflym, mae'n debygol o fethu. Mae gwaith pwyntio diffygiol yn frau a gall gael tyfiant o galch rhydd ar yr arwyneb, felly, bydd angen tynnu'r gwaith pwyntio a'i ail-wneud.

Mae ailbwyntio a defnyddio mortar calch yn sgiliau arbenigol a dylid cysylltu â chontractwr profiadol sy'n ymwybodol o'u heffaith ymarferol ac esthetig.

## Atgyweirio cerrig (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Pan fydd carreg unigol wedi dirywio neu wedi'i difrodi i'r fath raddau fel ei bod yn achosi problem i'r gofeb, efallai y dylid ystyried gosod un newydd yn ei lle. Dylid hefyd ystyried opsiynau amgen, fel gosod blychau pren syml dros y gaeaf i orchuddio cofeb er mwyn ei hamddiffyn rhag tywydd garw dros fisoedd y gaeaf. Mae'n syniad da ymgynghori â'r gymuned leol cyn gorchuddio'r gofeb rhyfel fel hyn.



*Pan fydd yn hanfodol gosod cerrig newydd yn lle hen rai, dylid naddu'r garreg newydd i gyfateb i'r garreg wreiddiol. Yn yr enghraifft hon o Sain Ffagan, mae'r arwyneb uchaf yn llyfn ac mae ymyl yr arwyneb wedi'i erwino er mwyn cyfateb i'r garreg wrth ymyl (© yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel).*



*Gellir defnyddio bolardiau i warchod cofebion rhyfel sy'n agored i ddifrod gan draffig sy'n pasio. Mae'r bolardiau isel o amgylch y gofeb rhyfel yn Rhaeadr Gwy yn gwarchod y gofeb ond nid ydynt yn achosi llawer o risg i draffig.*

Ni ddylid gosod cerrig newydd dim ond am fod yr hen rai wedi'u hindreulio. Dros amser, bydd pob carreg naturiol yn cael ei hindreulio a bydd yn edrych yn hen. Nid yw hyn yn arwydd o ddirywiad a gall ychwanegu at gymeriad y gofeb rhyfel, gan ddynodi ei hoedran a'i hymdeimlad oesol.

## Atgyweirio arwynebau

Mewn rhai achosion gellir estyn oes y calchfaen drwy roi triniaethau calch neu gôt gysgodol o galch i gyd-fynd â'r lliw er mwyn ffurfio haen aberthol. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn amgylcheddau eithafol. Fodd bynnag, rhaid cadw haenau cysgodol mewn cyflwr da gan nad ydynt yn atgyweiriad parhaol.

Mae sawl math o atgyfnerthwr carreg ar gael, ond rhaid cymryd gofal mawr wrth ddefnyddio'r rhain a dim ond gweithiwr cadwraeth carreg profiadol ddylai wneud hynny oherwydd gallai dewis y deunydd neu ddull anghywir arwain at ragor o broblemau. Fel arfer, dylid osgoi defnyddio ymlidwyr dŵr oherwydd gallant newid lliw yr arwyneb neu, yn waeth fyth, ddal lleithder yn y garreg, gan achosi i'r arwyneb asglodi drwy brosesau rhewi a meiriol a chrynhoad o halen.

## Gosod cerrig newydd yn lle hen rai

Mewn rhai achosion, gellir gosod rhannau o gerrig o'r newydd er mwyn cadw cymaint o'r deunydd gwreiddiol â phosibl. Wrth dynnu'r garreg sydd wedi'i difrodi neu wedi dirywio, dylid gwneud yn siŵr nad yw'r cerrig o amgylch wedi tolacio neu gael eu difrodi. Fel arfer, ni ddylid defnyddio offer trydanol gan eu bod yn cynyddu'r risg o ddifrodi'r gwaith maen o amgylch yn sylweddol.

Yr eithriad yw cael contractwr medrus i ddefnyddio torrwr disg pendiliol ar gyfer torri carreg neu uniadau. Dylid tynnu digon o ddyfnder o'r gwaith maen sydd wedi dirywio er mwyn sicrhau y gellir gosod y garreg newydd yn ddiogel yn ei lle. Fel arfer, byddai hyn yn 100mm o leiaf. Dylid naddu'r garreg newydd i gyfateb i'r gwaith a wnaed ar y garreg wreiddiol, ond ni ddylid gwneud iddi edrych fel petai wedi'i hindreulio na rhoi ôl traul ami yn artiffisial er mwyn iddi gyfateb i'r cerrig o amgylch. Dros amser, bydd cerrig newydd yn cael eu hindreulio a byddant yn cyfateb os byddant wedi cael eu dewis a'u naddu'n briodol.

Os bydd angen gosod cerrig newydd neu adrannau o waith maen yn lle hen rai, mae'n bwysig dod o hyd i gerrig sy'n cyd-fynd â nodweddion daearyddol ac ymddangosiad ffisegol y garreg. Gall gosod rhannau o gerrig anghydnaws arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol oherwydd amrywiadau yn y modd y





bydd yn cael ei hindreulio, yn ei pherfformiad a'i hymddangosiad. Lle y bo'n bosibl, dylid dadansoddi sampl o garreg er mwyn nodi o ba chwarel y daeth. Gall cofnodion hefyd ddangos tarddiad y garreg. Pan na ellir dod o hyd i garreg sy'n cyfateb yn union, dylai arbenigwr cadwraeth roi cyngor ar ddewisiadau amgen o gerrig priodol.

Lle mae cofebion rhyfel yn agored i ddifrod drwy wrthdaro, fel ar stryd brysur, gall bolardiau disylw roi rhywfaint o ddiogelwch.

## Arysgrifau sy'n erydu

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Pan na ellir darllen enwau oherwydd erydiad neu ddifrod, efallai y bydd angen coethi neu aildomi llythrennau. Fodd bynnag, os yw hyn yn debygol o achosi mwy o ddifrod i'r gofeb, neu os yw'r is-haen yn rhy fregus, yna efallai y byddai'n fwy priodol aildomi'r enwau ar ran wahanol o'r gofeb neu ar banel newydd. Neu, gallai fod yn bosibl cofnodi'r enwau mewn manau eraill. Bydd yr ateb yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Os yw'r arysgrif yn waith artist nodedig efallai y byddai'n werth cadw'r gwaith gwreiddiol a gadael iddo erydu'n naturiol a rhoi dull amgen o ailnodi'r rhestr enwau. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng gwarchod y gofeb a sicrhau bod y rhestr enwau'n cael ei chadw.

Ni ddylid ychwanegu placiau o gerrig gwahanol oherwydd byddant yn effeithio ar

ymddangosiad y gofeb a gallant achosi difrod i'r gwaith maen gwreiddiol gan y bydd amrywiaeth yn y modd y cânt eu hindreulio.

## Concrid

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Nid yw'n anarferol gweld concrid yn rhan o gofeb rhyfel. Yn aml, fe'i defnyddiwyd ar gyfer grisiau, bolardiau neu elfennau terfyn eraill. Weithiau, gall yr holl gofeb fod wedi'i gwneud o goncrid.

Gall strwythurau concrid fod yn agored i gracio a achosir gan osodiadau fferrus yn rhydu, chwyddo oherwydd rhew/meiriol neu ddifrod strwythurol. Gall strwythurau concrid hefyd gael eu hanharddu oherwydd staenio a achosir gan ewlychiad halen neu gyfryngau biolegol. Pan fydd craciau mewn concrid, mae'n bwysig nodi'r achos ac, os yw'n bosibl, adfer hyn cyn ceisio atgyweirio'r difrod. Gall hyn gynnwys torri gosodiadau fferrus allan a rhoi rhai dur di-staen yn eu lle, gwella manylion a gaiff eu hindreulio neu atgyweirio elfennau sydd wedi'u difrodi neu eu colli sy'n achosi difrod strwythurol.

Gall concrid bwrw fod yn anodd ei atgyweirio ac yn aml bydd y gwaith hwn yn amlwg. Bydd cael cymysgedd sy'n cyd-fynd yn agos â'r cymysgedd gwreiddiol o ran cryfder, lliw a gwedd yn helpu i leihau'r effaith weledol. Oni fydd y manylion gwreiddiol yn hysbys o gofnodion, mae'n debyg y bydd angen

*Chwith: Mae eglurder arysgrifau yn bwysig ond ni ddylai gwaith i'w glanhau neu eu hatgyweirio ddifrodi'r gofeb. Mae'r llythrennau ar gofeb rhyfel y Coed Duon wedi'u torri a'u lliwio'n glir.*

*Dde: Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r llythrennau ar y gofeb hon o Garreg Portland yn erydu. Efallai y bydd angen eu haildorri yn y pen draw neu efallai y bydd angen gosod cerrig newydd yn lle hen rai os mai dyma sy'n achosi'r dirywiad yn hytrach na phroses hindreulio naturiol (© Yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel).*

dadansoddi'r concriid er mwyn gweld beth fyddai'r ffordd orau o'i atgyweirio.

Gellir cael ymgynghorwyr neu weithwyr cadwraeth deunyddiau arbenigol i wneud y gwaith dadansoddi ac atgyweirio. Dylid cynhyrchu samplau o'r cymysgedd arfaethedig er mwyn sicrhau ei fod yn cyfateb yn addas i osgoi dyblygiadau. Weithiau, gellir atgyweirio craciau bach yn effeithiol gan ddefnyddio growt sy'n seiliedig ar Sment Portland Cyffredin (OPC) a thywod mastig mân, mathau amrywiol o resinau masnachol neu forter calch.

*Mae efydd yn nodwedd gyffredin ar gofebion rhyfel ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer placiau a cherfluniau. Mae'r ffigurau hyn wedi'u hindreulio i adael gorffeniad llinelllog gwyrdd ar yr arwyneb, sy'n anfwriadol yn ôl pob tebyg.*



## Metel

Efydd a ddefnyddir amlaf mewn cofebion rhyfel, ond ceir elfennau copr, pres, haearn a phlwm hefyd. Mewn rhai achosion, ceir gwaith euro. Dylid dewis dulliau i atgyweirio gwaith metel hanesyddol neu artistig a fydd yn creu'r risg leiaf o ddifrod i'r deunydd ac er mwyn cadw cymaint o'r deunydd gwreiddiol â phosibl. Dylid ceisio cyngor arbenigwr bob amser ac, yn y rhan fwyaf o achosion, gweithiwr cadwraeth metel ddylai wneud y gwaith.

## Efydd

Aloi o gopr a thun yw efydd. Mae'n nodwedd gyffredin iawn ar gofebion rhyfel naill ai fel cerfluniau bwrw, sy'n cwmpasu'r holl gofeb, neu blaciau neu baneli addumiadol. Yn aml, câi arwyneb cerfluniau efydd ei drin i greu effaith esthetig penodol. Gelwir hyn yn batiniad a gall fod yn naturiol neu wedi'i roi gyda chemegion. Gall amrywio ar draws arwyneb y metel er mwyn amlygu nodweddion penodol neu greu aroleuadau gweledol. Brown tywyll yw'r gorffeniad patiniad mwyaf cyffredin ar gyfer cofebion rhyfel a phlaciau (gweler t. 18). Weithiau, câi cerfluniau eu trin â chemegion sy'n cyflymu neu'n ysgogi'r broses rydu er mwyn creu gorffeniad amrywiol a gâi ei sefydlogi gan ddefnyddio olewau neu gwyr. Gallai hyn greu ymddangosiad hen.

Yn aml, câi llythrennau codi ar gofebion eu caboli er mwyn eu hamlygu.

Ar ôl y patiniad, câi cwyr microgrisialog amddiffynnol ei roi ar yr efydd ac mae angen i weithiwr cadwraeth arbenigol barhau i'w roi er mwyn cynnal yr haen amddiffynnol. Nid yw 'hylif efyddu' yn orffeniad priodol ar gyfer efydd traddodiadol gan fod ei liw yn anghywir, mae'n cuddio manylion — yn enwedig llythrennau codi — ac nid yw'n amddiffyn y metel yn ddigonol.

## Arwynebau yn dirywio (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Pan fydd efydd yn rhydu mae'n gadael cynhyrchion rhwd ar yr arwyneb. Fel arfer, cyfansoddion copr (carbonadau a sylffadau) yw'r dyddodion, sy'n creu'r gorffeniad gwyrdd cyfarwydd ar yr arwyneb a elwir yn ferdigris weithiau. Er bod y lliw gwyrdd yn ganlyniad i'r broses rydu, mae'n araf yn ffurfio ac yn sefydlog

a gellir ei gynnal cyhyd ag y defnyddir cwyr amddiffynnol priodol.


Pan na chaiff efydd ei ailgywro'n rheolaidd, gall y broses hindreulio naturiol gyflymu'r broses rydu a chaiff y patina a roddwyd ei golli. Bydd hyn yn arwain at newid mewn ymddygiad a, thros amser, gall yr efydd fynd yn agored i ddifrod a dirywiad. Gall allyriadau o gerbydau a llygredd amgylcheddol gyflymu dirywiad efydd. Mae efydd a gaiff ei amlygu i amgylchedd hallt, morol yn arbennig o agored i niwed a gall baw adar hefyd fod yn grydol iawn.

Dylai gweithiwr cadwraeth metelau drin rhwd gweithredol, sy'n ymddangos fel mandyllau, powdwr a dafadennau gwyrdd llachar, ar unwaith.

Ceir fframiau haearn gyr mewn rhai cerfluniau efydd, sy'n weddillion o'r broses fwrw neu fel cefnogaeth strwythurol. Mae'n chwyddo yn sylweddol wrth iddo rydu mewn amodau llai neu wlyb, a all achosi 'jacio ocsid' ar y deunydd o amgylch a difrod strwythurol dilynol i'r elfennau efydd. Os yw dŵr wedi cyrraedd fframiau mewnol, mae angen archwilio arwyneb yr efydd am ddifrod ffisegol neu rwd a dylai gweithiwr cadwraeth metel arbenigol ei atgyweirio i atal rhagor o ddŵr rhag ymdreiddio iddo.

Weithiau caiff efydd ei baentio â phaent sglein neu 'efydd' mewn ymgais i leihau'r gwaith cynnal

a chadw neu i atal dirywiad. Bydd hyn yn newid ymddangosiad y gofeb yn sylweddol ac yn arwain at broblemau yn y dyfodol. Dylid tynnu hen baent os yw'n bosibl a dylai gweithiwr cadwraeth roi gorffeniad patiniad a chwyr addas.



*Mae'r dafadennau gwyrdd llachar ar y cerflun hwn yn awgrymu rhwd gweithredol.*



*Mae'r olion brws ar y gofeb hon yn awgrymu bod paent efydd wedi'i ddefnyddio naill ai i geisio adfer yr efydd neu i'w atal rhag dirywio. Mae'n debyg bod hyn wedi newid golwg y gofeb ac nid argymhellir y driniaeth hon ar gyfer efydd.*



## Glanhau efydd

Yn gyffredinol, gallwch lanhau efydd yn sylfaenol gan ddefnyddio dŵr pibell gyda phwysedd isel, glanedyddion nad ydynt yn ïonig a brwshis blew naturiol ar y safle ar gyfer elfennau efydd syml megis placiau. Fel arfer, dyna'r cyfan sydd ei angen ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Ar gyfer unrhyw waith manylach na gwaith cynnal a chadw sylfaenol, neu os ydych yn pryderu ynghylch cyflwr yr efydd, bydd angen i chi gysylltu â gweithiwr cadwraeth metelau. Fel arfer, gwneir gwaith cadwraeth helaeth ar efydd oddi ar y safle mewn amodau gweithdy. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid cymryd gofal ychwanegol i ddiogelu rhag difrod. Mae'r broses patiniad yn cynnwys rhoi gwres a allai achosi i'r efydd chwyddo a chracio'r gwaith maen o amgylch.

Bydd y rhan fwyaf o ddulliau glanhau ac yna ailbatinio ac ailgwyo yn arwain at ymddangosiad braidd yn afreolaidd. Mae hyn yn dderbyniol fel arfer a bydd yn cyflwyno'r gofeb yn ei chyflwr warchoddedig. Er mwyn sicrhau ymddangosiad adferedig neu 'fel newydd', bydd angen stripio'r efydd yn ôl i'r metel moel gan ddefnyddio dull glanhau ysgraffiniol ac yna ailbatinio ac ailgwyo eto. Bydd hyn yn arwain at gollu unrhyw olion fyddai'n weddill o orffeniad yr arwyneb gwreiddiol a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud hyn, er enghraifft lle ceir rhwd gweithredol.

## Glanhau â stêm

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Gall glanhau â stêm fod yn dechneg effeithiol o dynnu cynhyrchion crydol a dyddodion arwynebol pan gaiff ei ddefnyddio ar bwysedd isel i ganolig. Efallai na fydd yn tynnu holl olion y cynhyrchion crydol felly dylid archwilio'r arwyneb yn ofalus ar ôl glanhau. Arbenigwyr ddylai ymgymryd â gwaith glanhau â stêm bob amser.

## Glanhau ysgraffiniol pwysedd isel

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol — gweler t. 10)

Dim ond mewn manau penodol y dylid defnyddio'r prosesau hyn er mwyn tynnu dyddodion rhwd gweithredol ac achosion difrifol o ddifwyno oddi ar gerfluniau efydd oherwydd gallant hefyd dynnu haenau patiniad

gwreiddiol. Dylech ddefnyddio gweithiwr cadwraeth metel oherwydd gall dulliau o'r fath ddifrodi'r gorffeniad ar yr arwyneb gwreiddiol os caiff ei ddefnyddio'n anghywir.

## Glanhau â chemegion

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Fel arfer, nid yw'r defnydd o gyfryngau glanhau cemegol, sef cynhyrchion asidaidd neu alcaliaidd fel arfer, yn addas ar gyfer glanhau efydd ar gofebion rhyfel. Mae'n debygol y bydd y cynhyrchion hyn yn achosi difrod i'r patiniad a gallant greu dŵr glaw ffo a all ddifrodi neu newid lliw plinthiau carreg. Pan fydd difrod graffiti ar elfennau efydd, efallai y bydd angen defnyddio deunyddiau glanhau cemegol. Gweithiwr cadwraeth ddylai wneud gwaith glanhau arbenigol o'r fath bob amser.

## Dulliau eraill

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Nid argymhellir defnyddio mathau eraill o lanhau fel chwythu â sylwedd gronynnol neu olchi â dŵr ar bwysedd isel oherwydd gallant fod yn ysgraffiniol iawn a gallant achosi difrod i'r efydd neu'r gwaith maen o amgylch. Ni ddylid fyth lanhau cofebion rhyfel gan ddefnyddio cynhyrchion glanhau efydd neu fetel cartref, glanhawyr asidaidd neu alcaliaidd, neu brosesau ysgraffiniol fel sandio neu ddefnyddio brwsh weiers. Mae'r dulliau hyn yn debygol o ddifrodi'r metel. Caiff brwshis efydd ffosfor eu nodi weithiau, ond gall y rhain hefyd ddifrodi'r patiniad ar yr arwyneb ac ni chânt eu hargymell oni fydd gweithiwr cadwraeth metel yn eu defnyddio pan na fydd dull llai ysgraffiniol yn addas.

## Ailbatinio ac ailgwyo

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Mae ailbatinio cofebion efydd yn broses arbenigol a gweithiwr cadwraeth ddylai ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae'n cynnwys cynhyrchion glanhau rhwd ac ailbatinio dros y gorffeniad presennol. Mewn achosion o rwd gweithredol difrifol, mae angen glanhau yn ôl i'r metel moel ac ailbatinio. Gall ailbatinio fod yn faes cadwraeth dadleuol felly dylid ceisio cyngor proffesiynol ar yr hyn sy'n briodol ar gyfer cofeb benodol.

*Gyferbyn: Brown tywyll yw'r gorffeniad patinio mwyaf cyffredin ar gyfer efydd ac mae angen ei ailgwyo'n rheolaidd i'w gadw mewn cyflwr da fel y gofeb rhyfel hon ym Mhontmorlais, Merthyr Tudful. Dim ond gweithiwr cadwraeth arbenigol ddylai wneud gwaith cwyo.*

Pan gytunir y dylid ailbatinio ac os nad oes rhwd difrifol, dylai eich gweithiwr cadwraeth ddefnyddio dull cymedrol sy'n cadw unrhyw haenau gwreiddiol o batiniad sydd wedi goroesi. Ar ôl y gwaith glanhau ac ailbatinio, dylid amddiffyn yr efydd â chwyr microgrisialog. Dylid ailbatinio o leiaf bob tair blynedd fel rhan o'ch rhaglen cynnal a chadw. Bydd hyn yn osgoi'r angen i wneud gwaith atgyweirio a gwarchod helaeth yn y dyfodol. Bydd angen tynnu'r hen gwyr cyn rhoi cwyr newydd.

Ceir taflen gymorth am *Warchod: Efydd* ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel.

*Pres yw'r deunydd a ddefnyddir gan amlaf ar gyfer paneli coffáu o fewn adeiladau. Dylai gwaith tynnu llwch ysgafn fod yn ddigon i sicrhau bod y pres yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da.*



## Pres

Mae'n gymharol gyffredin gweld paneli coffáu pres mewn eglwys neu gapel, neu mewn neuadd dref neu bentref. Gall paneli pres gynnwys llythrennau wedi'u boglynnu neu eu harysgrifio ac addumiadau wedi'u cerfweddu â morthwyl. Aloi o gopr a sinc yw pres a gellir ei gaboli i wneud iddo sgleinio. Fodd bynnag, gall rydu neu bylu os na chaiff ei amddiffyn, yn enwedig mewn awrygylch llaith. Yn aml, caiff pres ei eurliwio i'w atal rhag pylu ac i roi ymddangosiad sgleiniog iddo. Gall glanhau'n orfrwdfrydig ddfrodod'r eurliw ac achosi dirywiad. Mae eurliw yn dueddol o gracio wrth i amser fynd heibio. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i weithiwr cadwraeth arbenigol dynnu'r eurliw a'i ail-wneud.

Gellir gloywi pres heb eurliw yn ysgafn gyda chadach meddal ond bydd caboli aml, yn enwedig gan ddefnyddio cabol ysgraffiniol, yn erydu'r arwyneb a gall ddfrodod'r arysgrifau a manylion eraill dros amser. Ni ddylid defnyddio glanhawyr efydd cartref oherwydd gallant adael halen ar ôl. Gall rhoi cwyr microgrisialog helpu i atal rhwd a sicrhau y cedwir ymddangosiad sgleiniog. Gall pres fod yn agored i dolciau neu grafiadau, felly mae angen ei drin yn ofalus os caiff y gofeb ei symud i'w glanhau neu ei hatgyweirio, neu os yw mewn lleoliad agored.

Dylai eich strategaeth cynnal a chadw flynyddol ar gyfer pres gynnwys arolygu, tynnu llwch yn ysgafn neu lanhau â dŵr distyll a glanedydd nad yw'n ïonig — os oes angen — gan geisio peidio â gadael unrhyw weddillion a sicrhau eich bod yn glanhau'r arwyneb wedyn. Gellir tynnu baw o holltau ac arysgrifau gan ddefnyddio brws â blew naturiol meddal. Nid oes angen arbenigwr amoch oni cheir difwyniad neu ddirywiad difrifol, yna efallai y bydd angen gwneud gwaith cadwraeth arbenigol i dynnu hen eurliw a'i ail-wneud.

## Copr

Gellir defnyddio copr fel deunydd toi ar rai cofebion rhyfel ond mae'n fwy tebygol iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer paneli wedi'u harysgrifio neu eu boglynnu y tu mewn i adeilad. Fel efydd, gellir gwneud patiniad ymlaen llaw i sicrhau effaith artistig, neu ei gaboli a'i eurliwio er mwyn atal rhwd a chadw ymddangosiad metelaidd sgleiniog. Bydd copr na chaiff ei drin yn datblygu patina gwyrrdd yn raddol dros amser. Dylid tynnu

llwch neu olchi elfennau copr dan do yn ysgafn, fel gydag efydd.

## Gwaith haearn

Weithiau, bydd gan gofebion rhyfel elfennau haearn, yn enwedig rheiliau neu gatiâu, ond yn achlysurol gall fod elfennau haearn yn y gofeb ei hun. Gall haearn bwrw a haearn gyr fod yn wydn iawn os cânt eu hamddiffyn yn dda, ond maent yn agored i rwd os na chânt eu cynnal a'u cadw. Gall elfennau haearn hefyd gael eu difrodi drwy wrthdaro, fandaliaeth a lladrata. Dylid ymgymryd â gwaith atgyweirio gwaith haearn gan ddefnyddio deunyddiau a dulliau traddodiadol.

## Glanhau gwaith haearn cyn ei ailbaentio (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Mae'r paent ar haearn yn ei amddiffyn rhag dŵr sy'n achosi rhwd ac mae angen ei gynnal a'i gadw. Yn aml, bydd angen glanhau gwaith metel er mwyn paratoi'r arwyneb ar gyfer ei ailbaentio a chontractwr arbenigol ddylai ymgymryd â'r gwaith hwn. Dylid tynnu unrhyw faw neu rwd arwyneb rhydd neu sydd wedi glynu ond dylid gadael haenau gwreiddiol o baent a chynlluniau addumiadol, oni bai bod angen gwneud gwaith cadwraeth neu atgyweirio helaeth.

Er bod gwaith glanhau cemegol gan ddefnyddio glanhawyr asidaidd neu drochfeydd cemegol yn addas ar gyfer tynnu staenio trwm oherwydd rhwd ac ar gyfer stripio metel yn foel ar gyfer ei ailbaentio, nid argymhellir gwneud hyn yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gan fod risg o ddifrodi'r gwaith metel drwy orlanhau a dyddodiadau halen. Gwneir gwaith trochi cemegol oddi ar y safle ac mae angen datgymalu'r gwaith metel. Dim ond ar gyngor gweithiwr cadwraeth y dylid nodi hyn. Dylid glanhau gwaith metel yn drylwyr â stêm ar ôl gwneud gwaith glanhau cemegol er mwyn sicrhau bod yr holl gemegion wedi eu gwaredu.

Gall golchi â dŵr gan ddefnyddio brwshis blew naturiol fod yn effeithiol o ran tynnu halen toddadwy a baw sydd wedi glynu'n llac neu baent rhydd. Dylid sychu gwaith haearn yn ofalus cyn ei ailbaentio. Gall dull golchi â dŵr ar bwysedd uchel, gan ddefnyddio system ffrwd troell neu chwyrlio fasnachol, fod yn ddefnyddiol wrth dynnu rhwd a phaent; fodd bynnag, mae'n arwain at risg y caiff dŵr ei orfodi i mewn i holltau neu dyllau a all gynyddu'r risg o rwd yn y dyfodol.

Mae glanhau ysgraffiniol a pharatoi arwynebau gan ddefnyddio brwshis weiers a chrafu yn effeithiol ac mae'n anhebygol y bydd yn achosi difrod, ond dim ond ar gyfer ardaloedd bach y mae'n addas. Dim ond mewn achosion lle ceir rhwd difrifol y dylid defnyddio offer trydanol i wneud gwaith glanhau ysgraffiniol mecanyddol a gweithiwr cadwraeth gwaith haearn arbenigol ddylai ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae glanhau drwy chwistrellu deunydd ysgraffiniol gwlyb a sych a chwistrellu

*Yn aml, bydd gan gofebion rhyfel reiliau haearn ac weithiau blaciau neu baneli haearn. Gall haearn fod yn wydn iawn pan gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda. Bydd angen gwneud gwaith archwilio a chynnal a chadw rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r manylion cain ar y rheiliau hyn yn dirywio.*



rheuw sych yn ddulliau effeithiol o dynnu rhwd a phaent wrth baratoi ar gyfer ei ailbaentio ond dim ond contractwr medrus ddylai wneud hyn er mwyn osgoi difrodi arwyneb y metel.

Gall y mathau hyn o lanhau ysgraffiniol fod yn anodd ei reoli a cheir risg o ddifrodi'r gwaith maen o amgylch drwy ysgraffinio neu oherwydd dŵr glaw ffo. Dim ond ar gyngor gweithiwr cadwraeth y dylid defnyddio dulliau o'r fath ac fel arfer nid ydynt yn angenrheidiol nac yn briodol er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd.

Ar ôl glanhau, dylai arbenigwr drin y gwaith haearn gyda phaent preimio ac ocsid haearn micaol a'i baentio gan ddefnyddio lliw sy'n gywir yn hanesyddol.

## Plwm

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Gellir defnyddio plwm ar gofebion rhyfel ar gyfer toi neu osod caadau, cerfluniau bwrw neu lythrennau. Fel arfer caiff y patiniad ei wneud ymlaen llaw gydag olew ar waith plwm newydd er mwyn atal ocsid plwm rhag ffurfio a all achosi staenio gwyn ac olion dŵr glaw ffo. Mae plwm yn ddeunydd gywdr iawn ac nid oes angen llawer o

waith cynnal a chadw arno. Fodd bynnag, lladrata yw'r bygythiad mwyaf o bell ffordd i blwm ar gofebion rhyfel (gweler t. 24). Dylai contractwr arbenigol roi blaenoriaeth i osod manylion plwm newydd, fel caadau, yn lle rhai sydd wedi'u colli neu eu difrodi, gan eu bod hefyd yn diogelu'r gobeb rhag cael ei hindreulio yn aml.

## Euro

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Ystyr euro yw rhoi haenau tenau o ddalenni aur ar fanylion pensaernïol. Weithiau, caiff ei weld ar gofebion rhyfel, y tu fewn a'r tu allan i adeiladau. Er bod deunydd dalenni aur yn fregus iawn, mae'n rhyfeddol o wydn ac ni fydd yn pylu. Yn yr awyr agored, y tywydd yw'r prif fygythiad i euro; o dan do, y prif fygythiadau yw ysgraffinio neu ddifrod o lanhau oherwydd y caiff yr haen denau o ddalenni aur ei rhwbio i ffwrdd yn hawdd. Dim ond drwy dynnu llwch yn ysgafn gan ddefnyddio brwshis 'mop' meddal iawn ar gyfer gwaith euro y dylid ymgymryd â'r gwaith hwn. Ni ddylid fyth rhwbio neu olchi gwaith euro. Nid argymhellir defnyddio paent 'aur' fyth ar gyfer gwaith atgyweirio neu gadwraeth

*Chwith: Mae angen trin cofebion papur yn sensitif. Mae'r rhestr gwroniaid hon wedi'i hamddiffyn gan glawr gwydr.*

*Dde: Gall fod rhestrau o enwau wedi'u cofnodi ar baneli pren y tu mewn i adeiladau. Yma, mae'r enwau wedi'u heuro. Dylai gwaith tynnu llwch ysgafn fod yn ddigon i gadw'r gofeb yn lân ond arbenigwr priodol ddylai wneud unrhyw waith atgyweirio.*







Mae ffenestri gwydr lliw coffaol, fel yr enghreifftiau hyn yn Eglwys Annibynol y Tabernacl, Hwlfordd, yn nodwedd gyffredin mewn addoldai ac weithiau mewn adeiladau dinesig hefyd. Wrth eu glanhau, ni ddylid gwneud mwy na thynnu llwch yn ysgafn a'u golchi'n achlysurol. Ar gyfer gwaith mwy sylweddol, dylech gysylltu â gweithiwr cadwraeth arbenigol.

oherwydd byddant yn pylu'n rhy gyflym ac ni fydd ganddynt yr un sglein â dalenni aur go iawn. Gweithiwr cadwraeth arbenigol ddylai wneud pob gwaith atgyweirio.

## Pren

Mae cofebion pren wedi'u cerfio neu eu paentio yn gymharol gyffredin mewn eglwysi, capeli ac adeiladau dinesig, weithiau gyda gwaith euro neu baneli wedi'u harysgrifo o bres neu efydd. Dylech gyfyngu gwaith glanhau i dynnu llwch yn ysgafn ar gyfer pren sydd wedi'i baentio neu wedi cael ei farneisio. Gellir diogelu pren heb ei drin gyda chabol cwyr melyn naturiol, a gaiff ei roi yn ddarbodus iawn unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Gall y defnydd o lanhawyr cartref, cabol a dŵr ddifrodi elfennau pren a dylid eu hosgoi. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch unrhyw agwedd ar ofalu am gofebion pren, dylech ymgynghori ag arbenigwr cadwraeth.

Caiff problemau sy'n effeithio ar strwythurau pren, fel gatau mynwent, eu hachosi gan ddŵr sy'n pydru'r pren fel arfer. Dyllid ymgynghori ag arbenigwr er mwyn cael cyngor ar opsiynau atgyweirio. Lle bo hynny'n bosibl, dylid atgyweirio'r pren gwreiddiol, yn hytrach na gosod pren newydd yn ei le.

## Papur

**(cysylltwch â chontractwr arbenigol)**

Mae angen i gofebion papur, fel llyfrau sy'n cynnwys rhestrau gwroniaid, gael eu hamddiffyn rhag cael eu trin a newidiadau gormodol mewn tymheredd a lleithder. Dylech geisio cyngor gweithwr cadwraeth arbenigol ar sut i'w cyflwyno, eu cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio.

## Mosaigiau

**(cysylltwch â chontractwr arbenigol)**

Weithiau, mae cofebion yn cynnwys mosaigiau. Lle mae angen eu hatgyweirio, dylid ceisio cyngor gweithiwr cadwraeth arbenigol.

## Addurniadau wedi'u paentio

Ceir addurniadau wedi'u paentio ar gofebion y tu mewn a'r tu allan i adeiladau a bydd y math o ofal sydd ei angen yn dibynnu ar y math o baent, ei gyflwr a'r deunydd oddi tano. Gall fod yn bosibl gwneud gwaith glanhau ysgafn ar waith paent cadarn fel tynnu llwch (o dan do) a golchi (yn yr awyr agored) ond ni ddylech geisio ei ailgyffwrdd neu ei ailbaentio eich hun. Arbenigwr cadwraeth ddylai ymgymryd â'r gwaith hwn.

## Gwydr lliw ac addurnol

**(cysylltwch â chontractwr arbenigol)**

Nid yw'n anghyffredin gweld cofebion ar ffurf ffenestri gwydr lliw, yn aml mewn eglwysi neu gapeli, ond weithiau mewn adeiladau cyhoeddus eraill. Comisiynwyd rhai gan deuluoedd unigol i anrhydeddu mab neu dad a fu farw, ond ceir enghreifftiau o ffenestri mwy a gomisiynwyd fel cofebion rhyfel cyfunol. Gellir lliwio, ysgythu neu engrafu gwydr gydag addurniadau a llythrennau.

Caiff paenau unigol eu gosod mewn fframwaith o rodiau plwm main a gefnogir gan fariau trumiog llorweddol, wedi'u gwneud o haearn neu efydd fel arfer. Mae gwydr yn fregus

*Agorwyd y Sefydliad i Goffâu'r Rhyfel yn Llanwrtyd yn 1928 ac fe'i cyflwynwyd i goffâu'r sawl a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n adeilad rhestredig gradd II sy'n golygu y gall fod angen cael caniatâd adeilad rhestredig cyn gwneud unrhyw addasiadau iddo, yn ogystal â chaniatâd cynllunio, er mwyn sicrhau y cedwir cyfanrwydd y strwythur gwreiddiol. Bydda'r awdurdod cynllunio lleol yn gallu eich cyngori.*

a gall gwrthdaro, dirgyniad neu fandaliaeth ei ddifrodi. Gall symudiad thermol o'r elfennau metel hefyd achosi i ffenestri gwydr addurnol ddirywio a mynd yn rhydd neu'n gam dros amser. Dylid eu harchwilio'n rheolaidd am arwyddion o draul. Gellir lliniaru camystumiau drwy ychwanegu bariau trumiog a gosod plwm yn ei le gyda weiren goopr. Gweithiwr cadwraeth gwydr ddylai ymgymryd â'r math hwn o waith.

Weithiau, rhoddir haen amddiffynnol allanol ar ffenestri lliw er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni ac amddiffyn y ffenestr rhag difrod. Os na fydd cynllun a system awyru addas, gall y mathau hyn o wydro eilaidd arwain at broblemau anwedd a bydd y pren neu elfennau metel y gwydro yn dirywio'n gynt.

Dylid osgoi dalenni polycarbonad gan ei fod yn melynu ac yn breuo gydag amser. Pan fydd angen mesurau amddiffyn oherwydd y risg o fandaliaeth, gallai gosod rhwyll dur di-staen wedi'i orchuddio â phowdwr fod yn ateb derbyniol. Fodd bynnag, dylid ei osod o fewn unrhyw

rhwyllwaith ffenestr addurnol yn hytrach nag ar draws y ffenestr gyfan a dylid gosod sgriwiau anfferrus yn yr uniadau mortar.

Dylid archwilio ffenestri coffa yn rheolaidd am arwyddion o ddifrod, fel y gellir cynllunio gwaith cadwraeth ar gam cynnar. Dim ond tynnu llwch yn ysgafn â brwsh meddal neu sychwr llwch y dylech ei wneud wrth lanhau gwydr lliw, neu gallech ei olchi'n achlysurol gyda chadach meddal, llaith er mwyn osgoi crafu'r arwyneb neu effeithio ar unrhyw addumiadau. Ni ddylid defnyddio cynhyrchion glanhau gwydr ar wydr lliw neu wydr wedi'i baentio. Dylid ceisio cyngor gweithiwr cadwraeth arbenigol ar gyfer gwaith glanhau mwy eang, atgyweiriadau neu osod paenau neu fariâu unigol newydd.

## Adeiladau

Weithiau, mae adeiladau cyfan yn gofebion ac mae angen gwaith cynnal a chadw a chadwraeth sensitif sy'n cyd-fynd â'u diben. Ar gyfer gwaith addasu modern, gall fod angen cael caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeilad rhestredig. Dylai eich awdurdod cynllunio lleol allu dweud wrthy ch pa ganiatadau sydd eu hangen.

## Gwarchod rhag dwyn metelau

Gall elfennau metel cofebion rhyfel gael eu targedu gan ladron — yn arbennig plwm, copr ac efydd. Gallwch warchod rhag dwyn metelau mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys gosodiadau ffisegol neu larymau rhwystr. Mae nodau fforensig yn cael eu rhoi fwyfwy ar elfennau metel cofebion rhyfel er mwyn ceisio rhwystro lladron. Mae hyn fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio gyda mesurau diogelwch eraill a'i nodi'n glir gydag arwyddion rhybudd, na ddylent fod ar y gofeb ei hun. Dylid gosod arwyddion yn ofalus er mwyn osgoi ymyrraeth ac annibendod a allai amharu ar olwg y gofeb.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ragor o ganllawiau ar hyn, yn cynnwys prosiect In Memoriam 2014 sy'n cynnig SmartWater am ddim i geidwaid cofebion rhyfel er mwyn helpu i atal lladrad (ceir rhagor o fanylion ar t. 30).

Lle ceir achosion o ddwyn, yn ddelfrydol dylech osod eitem newydd unfath yn lle eitem a gafodd ei dwyn a rhoi mesurau gwrth-ladrad ar waith, fel gosodiadau ychwanegol. Mewn





enghreiffiau lle ceir achosion mynych o ddwyn, gall fod yn briodol gosod deunydd amgen yn lle deunydd a gafodd eu dwyn, cyhyd â'u bod yn cyd-fynd yn ffisegol ac yn esthetaidd â'r gofeb wreiddiol. Fel arfer, nid ystyrir bod atgynrychiadau synthetic fel placiau resin yn ddewis addas ar gofebion hanesyddol. Am ragor o wybodaeth, mae Cadw yn cefnogi cyhoeddiad English Heritage *Theft of Metal from Church Buildings*.

## Graffiti a fandaliaeth

Nid yw cofebion rhyfel hyd yn oed yn ddiogel rhag graffiti a ffurfiau eraill o fandaliaeth. Fel arfer, mae graffiti'n ymddangos ar ffurf paent wedi'i chwistrellu (aerosols), pennau marcio, cerfiadau neu grafiadau. Fel arfer, rhoddir blaenoriaeth i ddileu graffiti cyn gynted â phosibl gan ei fod yn effeithio'n andwyol ar olwg cofebion rhyfel. Bydd dileu'r graffiti ar unwaith yn helpu i atal ymosodiadau tebyg ac mae hefyd yn synhwyrol o safbwynt technegol gan fod paent, glud ac inc yn anoddach i'w dileu wrth iddynt sychu.

Er bod angen ymateb yn gyflym, mae angen i chi ystyried y dull dileu yn ofalus er mwyn sicrhau na fyddwch yn gwneud y difrod yn waeth. Mae'n syniad da cael manylion arbenigwyr cadwraeth wrth law sy'n gwybod sut i drin y deunyddiau y gwnaed eich cofeb rhyfel ohonynt

fel y gallwch gael cyngor a sicrhau bod gwaith adfer yn cychwyn cyn gynted â phosibl. Fel arfer, arbenigwr ddylai ymgymryd â phob gwaith i atgyweirio difrod oherwydd graffiti.

Os bydd cofeb rhyfel wedi'i fandaleiddio, mae'n bwysig cofnodi'r digwyddiad gyda ffotograffau a disgrifiad ysgrifenedig. Rhowch wybod i'r heddlu a chael rhif cyfeirnod trosedd, a fydd yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw gais am yswiriant. Bydd angen i chi gael cyngor proffesiynol er mwyn penderfynu ar y cam gweithredu mwyaf priodol fel glanhau, atgyweirio cerrig ac ati. Holwch yr awdurdod cynllunio lleol i weld a yw'r heneb wedi'i rhestru a gofynnwch am y cyngor a'r caniatadau angenrheidiol ar gyfer gwneud gwaith adfer. Bydd angen contractwr â'r sgiliau addas ac efallai y bydd angen cynnal profion glanhau cyn gwneud unrhyw waith.

## Tynnu graffiti

### (cysylltwch â chontractwr arbenigol)

Er y gellir tynnu'r rhan fwyaf o fathau o baent a chyfryngau eraill oddi ar arwyneb carreg, gall problemau godi pan gaiff pigmentau eu cludo i'r mandyllau gan dddyddion yn y paent. Weithiau, gall rhoi sylweddau ychwanegol er mwyn ceisio tynnu'r paent olygu bod y pigmentau'n cael eu gyrru ymhellach i'r mandyllau. Gall defnyddio

*Gall rhwystrau ffisegol helpu i atal lladron a fandaliaid, fel y rheiliau pigog o amgylch y gofeb rhyfel ym Magwyr.*

cynhyrchion olew, cannydd neu lanedydd achosi staenio neu afliwio a dim ond gweithiwr cadwraeth arbenigol ddylai wneud hyn.

Dylid cymryd mesurau hefyd i sicrhau nad yw dŵr glaw ffo, sylweddau a gaiff eu chwistrellu yn yr aer, dripiâu a splashis yn difrodi gweddill y gofeb neu'r amgylchedd ehangach. Dylai gweithredwyr ddilyn canllawiau cynhyrchion ar gyfer eu gosod a'u tynnu, a dylent wisgo cyfarpar amddiffynnol priodol.

Mae'n amhosibl tynnu graffiti pan fydd difrod ffisegol wedi bod, fel ar yr enwau sydd wedi'u cerfio ar y garreg. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid penderfynu a yw'n ddymunol atgyweirio neu roi arwyneb newydd ar y garreg yr effeithiwyd ami.

## Mesurau ataliol

Os yw graffiti'n broblem fynych mewn lleoliad penodol gall fod yn well ystyried defnyddio system gorchuddio â haen aberthol fel mesur

*Gall baw adar fod yn asidaidd ac arwain at rwd. Mae hefyd yn hyll ac yn anodd ei atal – yn enwedig mewn lleoliad agored fel y gofeb hon yn Llanelli. Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd yw'r ffordd orau o sicrhau na wneir unrhyw ddifrod hirdymor.*



ataliol. Ni fydd yn atal graffiti ond bydd yn golygu bod y broses o'i dynnu yn symlach. Dylid ymgynghori â chontractwr arbenigol.

Fel arfer, gwneir haenau aberthol o bolysacaridau a gellir eu tynnu drwy olchi â dŵr ar bwysedd isel i ganolig neu drwy lanhau â stêm. Bydd angen ailosod yr haen aberthol ar y gofeb bob tro ar ôl tynnu graffiti. Mae defnyddio cwyr microgrisialog yn opsiwn arall ar gyfer carreg. Gall unrhyw fath o haen aberthol newid ymddangosiad y gofeb, gall roi gorffeniad sgleiniog weithiau, a gall effeithio ar athreiddedd y garreg. Fodd bynnag, rhaid cael cydbwysedd rhwng effaith weledol a ffisegol yr haen, a'r risg o ddifrod oherwydd ymosodiadau graffiti yn y dyfodol a'r prosesau glanhau dilynol. Nid yw haenau parhaol, acrylig neu fathau eraill na ellir eu tynnu yn addas ar gyfer cofebion rhyfel.

Ymysg y mesurau ataliol eraill i leihau'r risg o fandaliaeth, mae cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth, goleuo gwell, teledu cylch cyfyng a rhwystrau ffisegol fel gatiâu, ffensys a thirlunio (caled a meddal). Efallai y gall swyddog atal troseddau eich heddlu lleol roi cyngor i chi ar fesurau i leihau'r risg o fandaliaeth yn y dyfodol. Ceir rhagor o awgrymiadau yn *War Memorial Theft: Prevention and Solutions* gan English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel.

## Rheoli adar

Gall adar, yn enwedig y golomen, yr wylan a'r drudwy, effeithio ar gofebion rhyfel drwy adael baw ac adeiladu nythod. Gall baw adar adael staeniau ar garreg a gwaith metel. Mae hyn yn difetha'r ymddangosiad a gall ysgogi prosesau dirywio. Mae'r baw yn asidaidd fel arfer a gall dŵr glaw ffo achosi rhwd neu gannu.

Er y gellir gosod pigau ar silffoedd neu arwynebau gwastad i atal yr adar rhag glanio, mae'r rhain yn ymyrryd yn weledol ac nid ydynt yn briodol ar gyfer cofebion rhyfel yn aml oni fydd y gofeb o fewn adeilad mwy. Yn gyffredinol, nid yw gosod rhwydi mân ar draws agoriadau a thros safleoedd clwydo yn addas ar gyfer cofebion rhyfel. Gall geliau ymlid adar ddifrodi arwynebau metelau a charreg, ac ni chânt eu hargymell. Mewn rhai achosion, gall fod yn effeithiol gosod modelau o adar ysglyfaethus gerllaw i atal adar rhag clwydo. Ar gyfer llawer o gofebion mewn ardaloedd trefol, mae'n bosibl mai'r unig ateb fydd gwneud gwaith cynnal a chadw a glanhau arwynebau yn rheolaidd er mwyn atal crynhoad o faw adar.

# Crynodeb o Ddiffygion Cyffredin

---

<b>Problem</b>	<b>Achos</b>	<b>Ateb</b>
Carreg wedi difwyno	Lefelau uchel o leithder a/neu lygredd atmosfferaid.	Glanhau ysgafn yn bosibl yn dibynnu ar y math o garreg neu ei chyflwr.
Tyfiant a thyfiant biolegol	Diffyg cynnal a chadw, gormod o leithder ar y tir neu'r arwyneb.	Cael gwared ar dyfiant, sicrhau bod draenio digonol a bod yr aer yn symud.
Uniadau agored yn y gwaith maen	Gwaith pwyntio wedi dirywio, tyfiant wedi ymyrryd gan achosi jacio, glanhau cras, symudiad strwythurol.	Cael gwared ar dyfiant, cribinio ac ailbwyntio gyda morter calch. Archwilio i weld a oes symudiad oddi tano.
Colli manylion ar arwyneb y garreg	Glanhau cras, erydu naturiol, carreg o ansawdd gwael.	Glanhau llai neu beidio â glanhau. Gosod arwyneb newydd ar y garreg pan fetho popeth arall yn unig.
Gwaith maen neu arysgrifau wedi erydu	Carreg feddal wedi'i hindreulio, dulliau glanhau cras, carreg wedi'i gosod yn anghywir.	Aildorri arysgrifau pan fyddant yn annarllenadwy. Ystyried gosod cerrig newydd os bydd yr hen rai wedi dirywio'n ddifrifol.
Efydd wedi afliwio	Rhwd, diffyg cynnal a chadw.	Sefydlogi gyda chwyr, neu lanhau, ailbatinio ac ailgwyro.
Gwaith haearn sy'n rhydu	Diffyg cynnal a chadw, paent wedi dirywio.	Glanhau, trin gyda phaent preimio ac ocsid haearn micaol a phaentio.
Graffiti	Gall fod yn fwy tebygol pan fydd y gofeb wedi'i hesgeuluso.	Glanhau'r garreg gan ddefnyddio'r dull priodol. Ystyried rhoi haen aberthol wrth-graffiti os bydd achosion mynych o graffiti.
Difwyno gan faw adar	Adar, coed neu geblau uwchlaw.	Glanhau a chynnal a chadw'n rheolaidd.



# Grantiau, Cyngor ac Adnoddau Defnyddiol

## Grantiau

**Cadw** yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am roi cyngor i weinidogion Cymru ar y broses o gofrestru henebion a rhestru adeiladau. Mae Cadw'n rhoi arian i gynorthwyo gyda'r gwaith o warchod ac atgyweirio cofebion rhyfel yng Nghymru. [www.cadw.cymru.gov.uk](http://www.cadw.cymru.gov.uk)

Elusen yw'r **Ymddiriedolaeth**

**Cofebion Rhyfel** sy'n gweithio i ddiogelu a gwarchod cofebion rhyfel yn y DU. Mae'n rhoi cyngor a gwybodaeth cadwraeth am ddim ar amryw o faterion sy'n ymwneud â chofebion rhyfel yn ogystal â gweinyddu cynlluniau grant, a all gefnogi'r gwaith o atgyweirio a gwarchod cofebion rhyfel. Gall unrhyw un wneud cais i'r Cynllun Grantiau Bach, ond dylech nodi na all yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ariannu gwaith ar ôl iddo ddechrau neu gael ei gwblhau. Ewch i adran grantiau gwefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel i gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn, sut i wneud cais, ffynonellau ariannu eraill a chyngor i ymgeiswyr [www.warmemorials.org/grants](http://www.warmemorials.org/grants)

Caiff y **Cynllun Grantiau Cofebion** ei redeg gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gall ad-dalu'r TAW a delir mewn prosiectau cofebion, yn cynnwys adeiladu cofebion newydd, ar ffurf grant. Gweler y wefan am fanylion cymhwyster a sut i wneud cais. Ar hyn o bryd, cafwyd cadarnhad y bydd y cynllun yn rhedeg hyd at 2015 felly dylech sicrhau bod y cynllun yn dal yn weithredol cyn gwneud cais. [www.memorialgrant.org.uk](http://www.memorialgrant.org.uk)

Gall **Cronfa Dreftadaeth y Loteri** roi arian er mwyn helpu grwpiau,

cymunedau a sefydliadau i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, yn cynnwys cofebion, adeiladau a safleoedd. [www.hlf.org.uk](http://www.hlf.org.uk) a Deall y Rhyfel Byd Cyntaf — Cronfa Dreftadaeth y Loteri <http://welsh.hlf.org.uk/HowToApply/WhatWeFund/FirstWorldWar/Pages/FirstWorldWar.aspx>

## Cyngor

Mae **Swyddogion Cadwraeth** mewn awdurdodau cynllunio lleol yn cynnig cyngor sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig a materion cadwraeth ehangach, yn cynnwys cofebion rhyfel. Dylech gysylltu â **Swyddogion Cofebion Rhyfel** awdurdodau lleol i ddechrau os hoffech gael gwybod mwy am ofalu am eich cofeb rhyfel ac efallai y gallant helpu drwy roi cyngor ar gadwraeth. Dylech gofnodi eich cofeb rhyfel gyda'ch Swyddog Cofebion Rhyfel. Ceir manylion Swyddogion Cofebion Rhyfel ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel. [www.warmemorials.org/wmo-wales](http://www.warmemorials.org/wmo-wales)

Mae **Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru** yn cynnal **Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru** — y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n cynnwys cofnodion o gofebion rhyfel. Gallwch chwilio am gofnodion ar eu cronfa ddata ar-lein **Coflein** [www.coflein.gov.uk](http://www.coflein.gov.uk). Dylech gofnodi eich cofeb gyda Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

Pedair **ymddiriedolaeth archeolegol Cymru** sy'n cynnal y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, a'r nod yw cofnodi'r holl nodweddion hanesyddol ac archeolegol hysbys yng Nghymru. Dylech gofnodi eich cofeb rhyfel gyda'r

ymddiriedolaeth briodol (ceir manylion cyswllt ar t. 30). Mae'r cofnodion ar gael ar-lein yn [www.archwillio.org.uk](http://www.archwillio.org.uk) a thrwy'r ap Android Archwillio, y gellir ei lawrlwytho o Google Play.

Mae'r **Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel** yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol ar sut i warchod a chynnal a chadw eich cofeb rhyfel ac mae'n rhoi amrywiaeth o daflenni cymorth a chwestiynau cyffredin ar-lein. [www.warmemorials.org](http://www.warmemorials.org)

Mae'r **Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol** hefyd yn creu cofnod cynhwysfawr o'r holl gofebion rhyfel yn y DU. Arferai'r **Archif Cofebion Rhyfel** gael ei alw'n Rhestr Genedlaethol y DU o Gofebion Rhyfel. [www.iwm.org.uk/warmemorials](http://www.iwm.org.uk/warmemorials)

I gael rhagor o gyngor ac i ddod o hyd i gontractwr addas, gallwch gysylltu â'r Gofrestr Cadwraeth, y Gofrestr o Beirianwyr Cadwraeth Achrededig, y Gofrestr o Benseiri a Achredwyd mewn Cadwraeth Adeiladau a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Am fanylion cyswllt, gweler y cyfeiriadau gwe isod.

## Adnoddau defnyddiol

### Cyhoeddiadau

G. Archer, *The Glorious Dead* (Kirstead 2009).

J. Corke, *War Memorials in Britain* (Rhydychen 2005).

English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, *Advice on Maintenance of War Memorials* (Llundain 2006).

English Heritage a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, *War Memorial Theft: Prevention and Solutions* (Llundain 2009).

English Heritage, *Theft of Metal from Church Buildings* (Llundain 2011); ar gael ar-lein yn: <<http://www.english-heritage.org.uk/professional/advice/advice-by-topic/places-of-worship/theft-protection/>>.

English Heritage, *Conservation, Repair and Management of War Memorials* (Llundain 2014).

A. Gaffney, *Aftermath: Remembering the Great War in Wales* (Caerdydd 1998).

Historic Scotland a'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, *The Repair and Maintenance of War Memorials, Short Guide 3* (Caeredin 2013); ar gael ar-lein yn <<http://conservation.historic-scotland.gov.uk/publication-detail?pubid=9912>>.

J. Summers, *British and Commonwealth War Cemeteries* (Rhydychen 2010).

J. Winter, *Sites of Memory, Sites of Mourning: The Great War in European Cultural History* (Caergrawnt 1995).

Mae'r holl daflenni cymorth gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel ar gael ar-lein yn [www.warmemorials.org/a-z](http://www.warmemorials.org/a-z)

## Gwefannau

Menter gan yr Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel a Sefydliad SmartWater yw In Memoriam 2014 sy'n rhoi nodau ffrensig SmartWater am ddim i geidwaid cofebion rhyfel er mwyn diogelu elfennau metel. [www.inmemoriam2014.org](http://www.inmemoriam2014.org)

Prosiect yw Cofebion Rhyfel Ar-lein sydd â'r nod o greu gwell dealltwriaeth o gyflwr cofebion rhyfel drwy geisio help y cyhoedd i lanlwytho a gwybodaeth, ffotograffau ac adroddiadau cyflwr. [www.warmemorialsonline.org.uk](http://www.warmemorialsonline.org.uk)

Archif Cofebion Rhyfel yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol [www.iwm.org.uk/warmemorials](http://www.iwm.org.uk/warmemorials)

*Cymru'n Cofio* — Wales Remembers 1914–1918 [www.cymruncofio.org](http://www.cymruncofio.org)

Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig <http://cymruww1.llgc.org.uk/cyl>

Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad [www.cwgc.org](http://www.cwgc.org)

Gall y Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol (SPAB) roi cyngor ac arweiniad ar sut i ofalu am adeiladau hanesyddol, yn cynnwys cofebion rhyfel. [www.spab.org.uk](http://www.spab.org.uk)

Y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol yw'r prif gorff proffesiynol ar gyfer ymarferwyr cadwraeth adeiladau ac arbenigwyr amgylchedd hanesyddol. [www.ihbc.org.uk](http://www.ihbc.org.uk)

Mae'r Cyfeirlyfr Cadwraeth Adeiladau yn adnodd defnyddiol ar gyfer canfod cynhyrchion a gwasanaethau cadwraeth. [www.buildingconservation.com](http://www.buildingconservation.com)

Gall y Gofrestr Cadwraeth eich helpu i ganfod contractwyr cadwraeth. [www.conservationregister.com](http://www.conservationregister.com)

Mae'r Sefydliad Cadwraeth (ICON) yn adnodd da ar gyfer rhoi cyngor ar gadwraeth ac mae'n rheoli'r Gofrestr Cadwraeth. [www.icon.org.uk](http://www.icon.org.uk)

CARE (Cofrestr Peirianwyr Cadwraeth Achrededig) [www.careregister.org.uk](http://www.careregister.org.uk)

AABC (Cofrestr Penseiri Achrededig ym maes Cadwraeth Adeiladau) [www.aabc-register.co.uk](http://www.aabc-register.co.uk)

RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) Dewch o hyd i Syrfewr [www.ricsfirms.com](http://www.ricsfirms.com)

The Twentieth Century Society [www.c20society.org.uk](http://www.c20society.org.uk)

## Cyfeiriadau

Cadw, Llywodraeth Cymru  
Tîm Polisi a Gwarchod  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QQ  
01443 336059  
[cadw@wales.gsi.gov.uk](mailto:cadw@wales.gsi.gov.uk)  
[www.cadw.cymru.gov.uk](http://www.cadw.cymru.gov.uk)

War Memorials Trust and War Memorials Online  
2nd Floor  
42a Buckingham Palace Road  
Llundain  
SW1W 0RE  
Cyngor/grantiau cadwraeth:  
020 7233 7356 / 0300 123 0764

[conservation@warmemorials.org](mailto:conservation@warmemorials.org)  
[www.warmemorials.org](http://www.warmemorials.org)  
[info@warmemorialsonline.org.uk](mailto:info@warmemorialsonline.org.uk)  
[www.warmemorialsonline.org.uk](http://www.warmemorialsonline.org.uk)

War Memorials Archive  
Imperial War Museums  
Lambeth Road  
Llundain  
SE1 6HZ  
020 7207 9863/9851  
[memorials@iwm.org.uk](mailto:memorials@iwm.org.uk)  
[www.iwm.org.uk/warmemorials](http://www.iwm.org.uk/warmemorials)

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Plas Crug  
Aberystwyth  
SY23 1NJ  
01970 621200  
[nmr.wales@rcahmw.gov.uk](mailto:nmr.wales@rcahmw.gov.uk)  
[www.rcahmw.gov.uk](http://www.rcahmw.gov.uk)

Ymddiriedolaeth Archaeolegol  
Clwyd-Powys  
41 Stryd Lydan  
Y Trallwng  
SY21 7RR  
01938 553670  
[trust@cpat.org.uk](mailto:trust@cpat.org.uk)  
[www.cpat.org.uk](http://www.cpat.org.uk)

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed  
Neuadd y Sir  
8 Stryd Caerfyrddin  
Llandeilo  
SA19 6AF  
01558 823121/131  
[info@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:info@dyfedarchaeology.org.uk)  
[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)

Ymddiriedolaeth Archeolegol  
Morgannwg-Gwent  
Tŷ Heathfield  
Heathfield  
Abertawe  
SA1 6EL  
01792 655208  
[enquiries@ggat.org.uk](mailto:enquiries@ggat.org.uk)  
[www.ggat.org.uk](http://www.ggat.org.uk)

Ymddiriedolaeth Archaeolegol  
Gwynedd  
Craig Beuno  
Ffordd y Garth  
Bangor  
LL57 2RT  
01248 352535  
[gat@heneb.co.uk](mailto:gat@heneb.co.uk)  
[www.heneb.co.uk](http://www.heneb.co.uk)



Mae'r portread hwn o  
filwr sydd wedi'i flino gan  
ryfel, ar y gofeb yn y Fenni,  
yn atgof cryf o pam bod  
angen i ni barhau i ofalu  
am ein cofebion rhyfel yng  
Nghymru.





**CYMRU'N COFIO**  
**WALES REMEMBERS**  
1914 - 1918

  
War Memorials Trust

 **Cadw**